Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



# Arweiniad Cydraddoldeb

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Mawrth 2015

Paratowyd y ganllaw hon gan Diverse Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r ganllaw ar gael yn ddigidol yn www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Clawr Blaen: *Click* gan Dafydd James, Cwmni Theatr Mess Up The Mess

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pam cael Arweiniad Cydraddoldeb? | 2 |
| Yr achos dros amrywiaeth yn y celfyddydau | 4 |
| Yr Arweiniad hwn | 5 |
| Rhai Ystyriaethau Cychwynnol | 6 |
| Ymgysylltu â gwahanol gymunedau | 10 |
| Rhaglennu er cydraddoldeb ac amrywiaeth | 17 |
| Estyn allan i'ch cynulleidfa bosibl | 20 |
| Tocynnau | 23 |
| Blaen Tŷ | 26 |
| Creu gwaith | 30 |
| Mynediad i waith celf | 33 |
| Monitro pwy sy'n ymgysylltu â'ch gwaith | 38 |
| Cymryd rhan yn y celfyddydau | 42 |
| Cyllid | 48 |
| Yn eich Sefydliad | 52 |
| Y bwrdd/pwyllgor rheoli | 52 |
| Recriwtio i'ch sefydliad | 54 |
| Diwylliant Sefydliadol | 57 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gyfredol | 60 |
| Adnoddau a chysylltiadau | 67 |
| Sut y lluniwyd yr arweiniad | 69 |


Mae'r holl ddogfen hon wedi'i hyperddolennu. Wrth glicio ar y penawdau ar y tudalen cynnwys, eir â chi'n syth i'r adran berthnasol. Cliciwch i ddychwelyd i'r tudalen Cynnwys.

## Pam cael Arweiniad Cydraddoldeb?

*"Mae gwaith cydraddoldebau yn ymwneud â phobl a phan mae'n mynd yn dda mae'n rhoi llawer iawn o foddhad ichi. Mae'n eich plesio pan fo pobl yn cymryd rhan na fyddant fel arfer yn ei wneud. Peidiwch â rhoi'r gorau a dathlwch yr ochr gadarnhaol."*

(Christine Matthews)

*"Mae syniad yn parhau mai rhywbeth i bobl freintiedig cymdeithas yw'r celfyddydau. Rhaid newid hyn. I rai pobl mae lle'r celfyddydau y tu hwnt i gwestiwn, ac mae'n teimlo'n naturiol iddyn nhw yn economaidd ac yn gymdeithasol. I eraill, mae'r celfyddydau yn dal i deimlo'n ddieithr, yn estron, yn rhywbeth i bobl eraill, y tu hwnt i'w profiad neu'n ymylol yn eu bywydau. Gydag ymgysylltu gwirioneddol yn digwydd â'r gymuned, mae'n annhebygol na fydd pobl yn gweld beth sydd gan y celfyddydau i'w gynnig iddynt. Ein gwaith ni yw amlhau'r adegau y daw hyn yn bosibl."*

(O strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, *Ysbrydoli: Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru*)

Nod yr arweiniad hwn yw rhoi ichi syniadau ymarferol am sut i gynyddu amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n profi'r celfyddydau (cynulleidfaoedd) a'r rhai sy'n ymgyfranogi o'r broses o greu celfyddyd (creawdwyr). Nod yr arweiniad yw mynd y tu hwnt i ddeddfwriaeth a rhestrau ticio. Ond darpara enghreifftiau a syniadau ymarferol gan sefydliadau celfyddydol eu hunain a fu'n gweithio'n dda yn y gorffennol.

Gobeithio y bydd y cyfuniad o sbardunau, cwestiynau, enghreifftiau ac astudiaethau achos yn gymorth ichi ddatblygu syniadau sy'n briodol ichi a'r cyd-destun y gweithiwch ynddo. Yr hyn y gall pobl eraill ei wneud weithiau yn fodd i ddarparu ysbrydoliaeth a chynghorion. Ond mae'n bwysig i unrhyw beth a wnewch fod yn iawn ichi – a hefyd eich lleoliad/eich cwmni/eich artistiaid, eich cenhadaeth a'ch amcanion, eich ardal, eich celfyddyd a'ch adnoddau.

Felly ar ddiwedd pob adran, neu fodiwl, o'r arweiniad hwn mae cwestiynau i'ch helpu o ran cynllunio ac ystyried. Nod y rhain yw eich sbarduno i feddwl am y materion hyn er mwyn gwthio'r cwch i'r dŵr neu hwylio ychydig yn bellach.

Ystyria'r arweiniad gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n ystyried y bobl sy'n mynychu eich gwaith, a'r bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau artistig a hyrwyddwch. Mae hefyd yn ystyried sut y gall eich sefydliad fod yn fwy croesawgar i'r bobl a allai ddymuno gweithio gyda chi neu eich cefnogi.

Mae deddfwriaeth gydraddoldebau'n cyfeirio at nodweddion gwarchodedig (gweler yr adran yn nes ymlaen am y Ddeddf Gydraddoldeb). Cyfeiria'r arweiniad at yr holl nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Gydraddoldeb a chynnig cyngor ymarferol drwy ddefnyddio astudiaethau achos enghreifftiol. Mae rhagor o astudiaethau achos mewn rhai meysydd nag eraill ac ni soniwn yn benodol am bobl sydd â sawl lefel o amrywiaeth. Serch hynny, mae'n amlwg yn bwysig cydnabod bod llawer o bobl yn cael eu heithrio mewn rhagor nag un ffordd.

Gwyddom, o'r cyfweliadau a borthodd ymbaratoad yr arweiniad hwn, fod llawer o sefydliadau celfyddydol yn ceisio ehangu eu cynulleidfaoedd o gymunedau lleol sydd dan anfantais. Mewn rhai achosion, y rhwystr i fynychu neu ymgyfranogi yw anfantais economaidd yr unigolyn a'r ymdrech sy'n ei wynebu i ddod o hyd i'r arian i fynychu digwyddiad. Nid yw statws economaidd-gymdeithasol yn grŵp â nodwedd warchodedig yn ôl y Ddeddf Gydraddoldeb ond mae nifer fawr o bobl mewn grwpiau cydraddoldebau yn profi tlodi ac mae llawr o orgyffwrdd rhwng y materion a'r atebion o ran tlodi, dosbarth cymdeithasol, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Felly cynwysasom rai achosion o ymarfer da o ran hyn yn yr arweiniad.

Yn olaf, drwy'r ymchwil a wnaed i ddatblygu'r arweiniad hwn, daethom i wybod bod llawer o ymarfer da yn digwydd ledled Cymru. Cymeradwywn y bobl a dorrodd gŵys newydd ac sydd yn geffylau blaen. A gobeithiwn y bydd y syniadau canlynol yn eich ysbrydoli i fod yn arweinydd hefyd.



© Cerdd Gymunedol Cymru

# Yr achos dros amrywiaeth yn y celfyddydau

Pam y dylem annog amrywiaeth yn y celfyddydau? Mae llawer o resymau:

## Gwella'r celfyddydau

Mae coleddu amrywiaeth ac artistiaid amrywiol yn dod â gwahanol fewnwelediadau a syniadau, gan gyfoethogi ymarfer celfyddydau a bywyd diwylliannol Cymru.

Gall y fath waith ategu ffurfiau traddodiadol, ac arwain at greu ymarfer artistig newydd ac arloesol o ran cynnyrch a chyflwyniad.

## Adlewyrchu Cymru'r unfed ganrif ar hugain

Mae Cymru yn newid. Mae pobl anabl yn ymgysylltu'n fwyfwy â'r gymdeithas; Mae lesbiaid, hoywon, deurywolion a thrawsrywolion yn gallu bod yn fwyfwy agored am eu bywyd; mae nifer y lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn cynyddu. Os yw celfyddydau Cymru i adlewyrchu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain, bydd yn rhaid iddynt fod yn gynhwysol o'r rhain ac o gymunedau eraill a choleddu gwahaniaeth.

Mae lefelau difrifol o amddifadedd yng Nghymru. Mewn ardaloedd o'r fath, mater allweddol yw sut i gynnwys pobl sy'n ddifreintiedig yn economaidd a phobl a fagwyd mewn cymunedau sydd dan anfantais y mae ymgysylltu â'r celfyddydau yn gallu teimlo'n *'ddieithr, yn estron, yn rhywbeth i bobl eraill...'* iddynt.

## Rhesymau busnes

Mae'n bosibl y bydd newid eich ffordd o fynd ati o ran datblygu a chyflawni eich gwaith a choleddu amrywiaeth yn gofyn am ragor o adnoddau a chost (er nad yw hyn yn wir bob tro). Serch hynny, yn amlach na heb, gall fod o fantais economaidd. Bydd llawer o'r rhain yn allweddol i ddatgloi adnoddau newydd neu sicrhau arian ychwanegol: atynnu cynulleidfaoedd mwy; defnyddio creadigrwydd ystod amrywiol o weithwyr; ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu drydydd.

## Datblygu cymunedol

Mae'r celfyddydau'n hyrwyddo lles cymdeithasol ac yn annog datblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mwy cynaliadwy. Rhydd astudiaethau a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru dystiolaeth bod, er enghraifft, ganolfannau celfyddydol yn ganolfannau pwysig ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol a chymunedol, a'u bod yn chwarae rhan allweddol mewn cydlyniant cymunedol.

Gwyddom y gall ymgysylltu â'r celfyddydau drawsnewid y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Gall newid y ffordd y gwelant eu hunain - hyd yn oed eu breuddwydion am y dyfodol - yn ogystal â'u helpu i ddatblygu'r hunan-barch a'r hunanwerth a fydd yn gymaint ran o'u sgiliau byw ar gyfer y dyfodol. Gall ymgysylltu â'r celfyddydau wella iechyd y meddwl a'r corff.

## Yn syml, oherwydd dyma'r peth iawn i'w wneud

Dylai pawb yng Nghymru allu mwynhau'r celfyddydau ac ymgyfranogi ohonynt.

## Yr Arweiniad hwn

Rhennir yr arweiniad yn naw 'Modiwl'. Dyma hwy:

1. Ymgysylltu â gwahanol gymunedau
2. Rhaglennu er cydraddoldeb ac amrywiaeth
3. Estyn allan i'ch cynulleidfa bosibl
4. Tocynnau
5. Blaen Tŷ
6. Creu gwaith
7. Mynediad i waith celf
8. Monitro pwy sy'n ymgysylltu â'ch gwaith
9. Cymryd rhan yn y celfyddydau
10. Cyllid

Ymhob modiwl mae'r adrannau canlynol:

- Pwt o gyflwyniad
- Ychydig o enghreifftiau o ymarfer da

Wedyn ystyria'r arweiniad y swyddogaethau mewnol canlynol

- Y bwrdd/pwyllgor rheoli
- Recriwtio i'ch sefydliad
- Diwylliant Sefydliadol

Wedyn cynhwyswn wybodaeth ar y canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gyfredol
- Adnoddau/Cysylltiadau
- Sut y lluniwyd yr Arweiniad



## Rhai Ystyriaethau Cychwynnol

### Felly, trafodwn y Celfyddydau

> *"Mae ychydig o rwystrau beth bynnag – y gair 'celfyddydau' ei hun – on'd yw'n elitaidd? – weithiau mae'n rhoi darlun o bobl wynion, dosbarth canol, canol oed yn gwneud pethau sy'n amherthnasol i fywyd bob dydd y rhelyw o bobl."*

Nid diben yr arweiniad hwn yw mynd i'r afael â'r ddadl ehangach, 'beth yw'r celfyddydau?', ond mae'n glir o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth fod yr atebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr iawn.

Dyma rai sylwadau gan y bobl y cyfwelwyd â hwy ar y cwestiwn hwn:

> *"Mae llawer o hen bobl mewn cymunedau difreintiedig yn yr ardal hon ac ni fyddai mamau ifainc yn meddwl bod y celfyddydau yn rhan o'u bywyd, ond maent yn canu a gwneud crefftau ac yn y blaen. Nid yw llawer o bobl yn cydnabod yn ddigon y ffaith eu bod yn greadigol ac artistig. Mae goresgyn y rhwystr hwn yn gymysgedd o ddefnyddio iaith nad yw'n 'gelfyddydol' i ddisgrifio gweithgarwch celfyddydol megis 'archwilio hanes lleol' lle mae'r cyfrwng yn digwydd bod yn ddawns, darlunio, crefft, canu, drama ac yn y blaen."*
>
> *"Rheolir llawer o theatrau/canolfannau celfyddydol yng Nghymru gan bobl nad ydynt yn dod o Gymru ac nad ydynt yn siarad Cymraeg, ac mae'n bosibl nad ydynt yn deall pwysigrwydd y Gymraeg. Yn aml meddylia'r bobl hyn eu bod yn dod â diwylliant i Gymru ac nid ydynt bob tro yn cydnabod yr hyn sy'n digwydd nac yn gofyn sut y gallant gefnogi ac annog yr hyn sy'n digwydd yn barod. Ystyria llawer y celfyddydau aruchel yng Nghymru yn wrthun i'w traddodiad a'u diwylliant."*
>
> *"Mae rhwystrau diwylliannol sylweddol i gael hygyrchedd i'r opera. Mae opera ar un eithaf y pegwn o ystod y celfyddydau ac mae llawer o ganfyddiadau gan bobl y mae opera mewn lle da ar eu cyfer nad yw opera iddynt hwy. Mae hyd yn oed rwystrau i bobl wynion a dosbarth canol rhag mynychu opera a pho bellaf y mae person oddi wrth yr ystrydeb, anoddaf yw iddynt newid a dod i weld perfformiad nad ydynt yn ei ystyried yn rhywbeth iddynt hwy."*

Ac un dyfyniad o strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau yng Nghymru

> *"Targed symudol yw'r celfyddydau, yn tresmasu ffiniau ac yn gwrthod diffiniadau statig. Wrth edrych yn ôl ar yr hen gymariaethau gyda'u dau begwn anghymodlon – rhagoriaeth neu hygyrchedd, cymhorthdal neu fasnachol, elitaidd neu boblogaidd – mae'n amlycach nag erioed nad oedd y pegynnu'n taro deuddeg, ac erbyn hyn mae bron yn amherthnasol. Mae diwydiannau creadigol heddiw yn cymylu'r ffiniau hynny er mwyn symbylu syniadau newydd a phorthi sgiliau gwerthadwy. O gyhoeddi i ddylunio, o bensaernïaeth i ddarlledu - mae'r celfyddydau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn cyfrannu at ein diwylliant cyffredin mewn modd pwysig."*

Mae hyn yn arddangos bod llawer o wahanol ganfyddiadau ynghylch natur y celfyddydau a'r rhan y maent yn ei chwarae mewn bywyd pobl wahanol. Mae'n bwysig cydnabod a chofio hyn, yn enwedig wrth ystyried sut y gellwch fynd i'r afael â'r dasg o gynyddu a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Prif ffrydio

Dyma fyrdwn y neges: dylai celfyddydau Cymru fod yn agored a hygyrch i bawb. Yn ymarferol golyga hyn eich bod yn weithgar wrth ystyried cydraddoldeb ar draws pob agwedd ar eich gwaith, monitro pwy yr ydych yn ei gyrraedd ac yn addasu sut y gwneir pethau i fod yn fwy cynhwysol. Dyma ystyr prif ffrydio.

Lle nad yw'r addasiadau hyn yn ddigon ynddynt hwy eu hunain, ystyriwch weithredu'n gadarnhaol neu gynnal prosiectau targedol a fydd yn cyrraedd yn fwy effeithiol y rhai nad ydych yn eu cyrraedd eisoes. A dygwch i gof sut i gysylltu'r prosiectau targedol hyn â'ch gwaith arall.

*"Dylai'r celfyddydau a ddefnyddir weddu i ddiwylliant y grŵp wrth integreiddio pobl Dduon ac Ethnig (*1) a'r rhai nad ydynt yn Brydeinig, er enghraifft, mae'r celfyddydau gwerinol yn gryf yn Nwyrain Ewrop ac mae'n llwybr i ymgysylltu â'r gymuned."*

*1: Pobl dduon ac ethnig

*"Ni chynhaliwn weithdai penodol sy'n targedu pobl dduon ac ethnig, am y diwellir eu hanghenion yn y gweithdai cyffredinol gan bobl broffesiynol a hyfforddwyd i fod yn sensitif i anghenion diwylliannol. Nid ein ffordd ni o weithio yw targedu unrhyw grwpiau neu gynulleidfaoedd am fod ein gwaith yn troi o gwmpas cynwysoldeb a chydweithio mewn gweithdai sy'n agored i bawb yn y gymuned. Nid ydym am wahanu pobl ac ni welwn reswm dros wneud hynny."*

Gall y ddwy enghraifft hyn weithio (y gwir yw y byddai rhai pobl dduon ac ethnig am gael y celfyddydau targedol lle byddai eraill yn ddigon bodlon i ymuno â beth bynnag sy'n digwydd beth bynnag). Mae peryg, serch hynny, heb rywfaint o waith targedol o ran ymgysylltu, cyhoeddusrwydd ac yn y blaen, na fyddai pobl dduon ac ethnig (neu anabl neu unrhyw grŵp arall) yn bresennol hyd yn oed mewn gweithdai nad yw'n dargedol. Dyma rai enghreifftiau syml o'r rhesymau posibl am hyn: hygyrchedd corfforol a/neu synhwyraidd; amseriad y gweithdy neu'r gweithgaredd; sut y trefnir cyhoeddusrwydd am y digwyddiad; neu bris y tocynnau.

Ond a gred pobl fod y gweithgaredd a gynigir ar eu cyfer hwy ac a yw'r sefydliad neu'r adeilad neu'r perfformiad yn un lle teimlent yn gyfforddus - dyma'r ystyriaeth fwy sylfaenol yma. Mae'n bosibl y gallai pobl o gefndiroedd cymdeithasol mwy breintiedig fod yn gyfarwydd â mynd i adeiladau crand a'i ystyried yn rhan o'u bywyd beunyddiol. Ond os na fu'r fath brofiad yn rhan o'ch bywyd, mae'n bosibl i'r adeilad crand neu'r sefydliad fod â chysylltiadau penodol ym meddyliau pobl (er enghraifft) ochr swyddogol bywyd, gwaith, anhawster neu deimlo'n fychan, yn hytrach na mwynhau. Mae'n bosibl i sefydliad celfyddydol fod yn agored i bawb, ond os mai dim ond adran gyfyngedig o'r gymuned sy'n dod i weld ei waith celfyddydol ac ymgyfranogi ohono, wedyn mae ei weithgareddau'n rhwym o gau pobl allan.

Nod prif ffrydio yw gwneud y gwaith yn groesawgar ac arferol i gynulleidfaoedd amrywiol. Ond mae maglau cudd. Sawl gwaith y clywsom yr honiad 'mae ein gwaith yn agored i bawb - ni roddwn rwystrau o flaen neb a gall pobl ddewis dod ai peidio'. Dyma ffordd syml iawn o edrych ar y byd. Mae'n anwybyddu'r rhwystrau dyfnion i hygyrchedd a'r llu o ffyrdd anuniongyrchol (ac weithiau anwybodus) y gwahaniaethir yn erbyn pobl â nodweddion gwarchodedig.

I'r sector cyhoeddus, a gynhelir gan arian y cyhoedd ac sy'n gweithredu er budd y cyhoedd ehangaf posibl, nid yw hyn yn ddigon da. Os dewis sefydliad neu unigolyn dderbyn arian y cyhoedd, bydd yn rhaid iddynt barchu'r rhwymedigaethau sy'n dod law yn llaw â'r arian hwnnw.

## Ymdrin â Gwahaniaeth

Mae mater pellach hefyd. Dychmygwch ichi lwyddo wrth gael llawer o bobl i ddod nad ydynt wedi dod o'r blaen. Mae gwahanol bobl a chymunedau'n ymddwyn yn wahanol. Ac os amrywiwch eich artistiaid, eich perfformwyr a'ch cynulleidfa, bydd yn rhaid ichi ymdrin â gwahaniaeth. Fel y mynegodd un ymatebydd, weithiau mae lleoliadau celfyddydol *"am groesawu pobl ond o hyd yn disgwyl iddynt ymddwyn yn yr un ffordd y mae pobl wynion dosbarth canol yn ymddwyn".*

Rhoes yr ymatebydd enghraifft. Daeth ymwelydd ethnig â'i babi i ddigwyddiad a dechreuodd y bychan lefain yng nghanol y perfformiad. Byddai aelod mwy profiadol o'r gynulleidfa wedi mynd allan â'r babi yn reddfol, ond nid oedd y fam yn gyfarwydd â'r disgwyliadau cymdeithasol. Felly arhosodd ac arhosodd y babi yn ei chôl. Ni wyddai'r staff beth i'w wneud ac aethant at yr ymatebydd am gymorth. Atebodd 'beth fyddwch chi'n ei wneud fel arfer?' (a'r ateb a gafodd oedd: gofyn iddi'n gwrtais i wylio ar y sgrin y tu allan nes bod y babi wedi ymdawelu). Felly beth yw neges yr hanesyn? Oherwydd mai ethnig oedd y fam, aeth y staff yn ansicr o'r hyn y dylent ei wneud. Serch hynny, gallai ychydig o hyfforddiant a synnwyr cyffredin osgoi'r fath sefyllfa annifyr.

Dengys yr enghraifft hon ac eraill bod profiadau yn y foment yn aml yn hanfodol i brofiad pobl mewn lleoliadau celfyddydol neu berfformiadau. (Gweler hefyd swyddogaeth blaen y tŷ, ymhlith eraill).

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys





Grŵp Drama Rise & Shine, Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Dewi Jones)

## Ymgysylltu â gwahanol gymunedau

Mae sefydliadau ac unigolion – ac nid yn y celfyddydau'n unig – yn aml yn cael anhawster i ymgysylltu â gwahanol gymunedau lleol. Gall fod nifer o resymau am hyn. Teimla rhai nad yw'n rhywbeth y maent yn ei wneud. Ni waeth beth yw'r rheswm, bydd yn rhaid neilltuo amser i feithrin perthynas a datblygu deialog. Mae hyn yn osgoi creu embaras – yr ofn o fynd i fosg neu grŵp i bobl anabl a gwneud neu ddweud y peth anghywir.

Megis meddai un ymatebydd: *"Mae'n bwysig bod pobl yn gwybod na fyddent bob tro yn ei chael yn iawn a gallai iaith wahaniaethol neu achosi tramgwydd fod yn ddamweiniol. Y peth pwysig yw bod yn agored i bobl â nodweddion gwarchodedig a dysgu'n barhaus a gwella a derbyn eich bod wedi gwneud cam gwag, ymddiheuro a dysgu ohono a pheidio ag ofni gwneud camgymeriadau."*

Yn ystod ein hymchwil daethom ar draws enghreifftiau ysbrydoledig o sut y mae gwahanol sefydliadau wedi mynd o gwmpas ymgysylltu â chymunedau. Mae'r rhain yn dangos y buddion sy'n dod o ymdrechu i ymgysylltu â chymunedau na fyddai fel arall yn ymwneud â'r celfyddydau. Gallant fod yn fudd i'r cymunedau dan sylw ac i'r sefydliad celfyddydol, a dangosant ystod y gwaith da sy'n digwydd yng Nghymru.

### SWICA (Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwylliannol De Cymru)

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae Celfyddydau Rhyngddiwylliannol Cymunedol De Cymru wedi cychwyn a datblygu perthynas waith gyda Chymdeithas y Philipiniaid yng Nghaerdydd.

Yn y flwyddyn gyntaf, yn hytrach dweud yn bendant beth fyddai thema carnifal Caerdydd, penderfynodd Celfyddydau Rhyngddiwylliannol Cymunedol De Cymru agor y llawr i nifer o syniadau a themâu a ddatblygwyd gan y gwahanol gymunedau ynghlwm wrth y digwyddiad. Awgrymodd Cymdeithas y Philipiniaid eu bod yn defnyddio themâu traddodiadol Philipinaidd a welir yng ngharnifalau Ynysoedd y Philipinos. Datblygwyd hyn fel y gallai adran gyfan o'r orymdaith fod â thema Philipinaidd. Cefnogodd Celfyddydau Rhyngddiwylliannol Cymunedol De Cymru y grŵp i ymchwilio ac ehangu eu syniadau i wireddu hyn. Roedd hyn yn fodd i gadarnhau'n bositif draddodiadau diwylliannol gan arddangos hunaniaeth ddiwylliannol gadarnhaol. O ganlyniad, arddangosodd y carnifal yn y flwyddyn gyntaf agwedd diwylliannol gadarnhaol ar ddiwylliant Ynysoedd y Philipinos.

Wedyn atynnodd y carnifal yn yr ail flwyddyn mwy na dwbl, sef 70, y bobl arferol o gefndir Philipinaidd. Roedd hefyd gynnydd yn nifer y Philipiniaid ifainc a oedd ynghlwm wrth drefnu'r carnifal yn yr ail flwyddyn. Roedd 50% o'r ymgyfranogwyr dan 20 oed. Yn yr ail garnifal roedd ystod ehangach o eiconograffeg Philipinaidd (gan gynnwys tacsi o Fanila).

Mae Celfyddydau Rhyngddiwylliannol Cymunedol De Cymru o hyd yn casglu adborth oddi wrth Gymdeithas y Philipiniaid ac yn ymgynghori â hi o ran gweithio ar amrywiaeth o brosiectau drwy gydol y flwyddyn. Maent hefyd yn ymgynghori â hwy am y carnifal ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Felly gallent gefnogi'n well Gymdeithas y Philipiniaid i baratoi a chynllunio eu syniadau a'u creadigaethau ar gyfer y carnifal. Gobeithiant barhau i gefnogi Cymdeithas y Philipiniaid i annog rhagor o ymgyfranogi yn y flwyddyn nesaf.



Yr Hwb, Theatr i Bobl Ifainc Clwyd Theatr Cymru yn perfformio mewn ysgol uwchradd yn y Fflint

## Clwyd Theatr Cymru

Mae gan Clwyd Theatr Cymru brosiect lle ânt i ysgolion heb fod y bobl ifainc yn eu disgwyl. Arhosant yno am wythnos a chymryd yr ysgol drosodd bron drwy gynnal perfformiadau mewn gwahanol leoedd o amgylch yr ysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Macbeth yn y cyntedd a bîtflwch ar yr iard. Erbyn diwedd yr wythnos mae llawer o'r bobl ifainc wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau celfyddydol na fyddent fel arall wedi breuddwydio ei wneud am eu bod yn sylweddoli pa hwyl sydd ar gael. Maent hefyd yn datblygu perfformiadau naid mewn ysgolion megis golygfa o ddrama dros ginio, i hyrwyddo perfformiadau sydd ar y gweill a rhoi blas i'r bobl ifainc.

Mae gan Clwyd Theatr Cymru hefyd gysylltiadau â'r Ganolfan Waith a chynnal lleoliad gwaith sy'n cynnig 30 lleoliad y flwyddyn mewn gwahanol feysydd yn y theatr ac nid i bobl ifainc 16 oed yn unig ond hefyd i oedolion di-waith.

Cynnal Clwyd Theatr Cymru dymor haf cymunedol lle bo grwpiau cymunedol yn cymryd dros y lleoliad am ddeufis, er enghraifft, mae un grŵp ar gyfer gallu cymysg (sef pobl anabl sydd â gwahanol lefelau o anabledd a phobl abl hefyd). Mae hyn yn ogystal â'r oriel addysg sydd ar gael i unrhyw grŵp mewn amgylchedd addysg i gael eu gwaith wedi'i arddangos yn broffesiynol ac mae'n rhad ac am ddim i grwpiau, o archebu lle ymlaen llaw mewn digon o amser.

### Theatr a Chanolfannau y Celfyddydau Taliesin, Abertawe

Mae gan Daliesin gysylltiadau a rhaglenni parhaus â grwpiau cymunedol - maent am gael perthnasau gwaith cyson â'r grwpiau hyn yn hytrach na phrosiectau untro. Gweithiant yn rheolaidd gyda'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd, Ceiswyr Lloches Bae Abertawe ac eglwysi lleol (canolfannau crefyddol).

Anogodd Taliesin ymgyfranogiad hefyd gan fyfyrwyr drwy gynnig gostyngiad i'r cymdeithasau. Serch hynny, cânt anawsterau i gael y myfyrwyr i gymryd rhan am eu bod yn cystadlu yn erbyn llawer o wahanol leoliadau. Ceisiant oresgyn hyn drwy gael llysgenhadwr o fyfyriwr a all annog eraill i ddod a dechrau cymryd rhan. Pethau eraill a geisient oedd siarad â thiwtoriaid y cyrsiau (yn enwedig y cyrsiau yn y celfyddydau perfformio) i annog y myfyrwyr i ddod i sioeau a pherfformiadau.

Cynnal Taliesin yr Ŵyl Ddawns dros ail benwythnos mis Gorffennaf bob blwyddyn, digwyddiad yn yr awyr agored sy'n rhad ac am ddim. Y syniad cychwynnol y tu ôl i hon oedd dod â'r perfformiad allan o'r theatr a'i gyflwyno gerbron cynulleidfaoedd newydd a cherbron gwahanol gymunedau. Mae'n dod i mewn â chynulleidfaoedd a allai fod ychydig yn bryderus am ddod i'r theatr i weld dawns. Cynhelir hi fel rheol mewn safleoedd yng nghanol y dref. Fel arfer cynnwys yr ŵyl ystod o bethau megis fflachdorfeydd a pherfformiadau dawns proffesiynol.

Mae'n cynnwys llawer o wahanol grwpiau: prosiectau dawns Taliesin; grwpiau cymunedol lleol; bagadau dawns proffesiynol ac ati. Mae gan bob un o'r rhain y cyfle i rannu sgiliau (yn enwedig rhwng pobl broffesiynol, pobl ifainc a'r ysgolion dawns).

Dyddiau Dawns, Canolfan Celfyddydau Taliesin (llun: Phil Rees)



### Theatr y Torch, Aberdaugleddau

Bu'r Torch yn gweithio gyda chymuned deithiol leol yng Nghil-maen a gafodd grantiau i wneud ffilmiau. Cynhaliodd y Torch noson i'r Osgars yn y lleoliad gyda charped coch ac yn y blaen – gan ddarparu digwyddiad unigryw i gymuned y teithwyr weld eu ffilmiau eu hunain.

### Canolfan Gerdd William Mathias, Caernarfon

Canu i'r Ymennydd – ddwy flynedd yn ôl cysylltodd staff Cymdeithas Alzheimer y Gogledd â Chanolfan Gerdd William Mathias am y cawsant arian i sefydlu prosiect y Gymdeithas, Singing for the Brain, yn y Gogledd. Mae'r Ganolfan yn darparu dau diwtor, Nia Davies Williams ac Arfon Wyn i roi tri dosbarth bob pythefnos gyda thros 80 o bobl yn cymryd rhan. Mae gan tua 50% o'r ymgyfranogwyr ddementia ac yn mynychu'r dosbarthiadau gyda'u gofalwyr. Mae'r sesiynau yn boblogaidd iawn a chânt eu darparu yn y Rhyl, Dinbych a Hen Golwyn gan dargedu pobl sydd yn y cyfnodau cynnar a chanolig o ddementia. Lluniodd Nia adroddiad ar y dosbarthiadau ar gyfer Cymdeithas Alzheimer a diddorol yw nodi bod yr ymgyfranogwyr yn dysgu caneuon newydd yn ogystal â'r rhai y maent yn gyfarwydd â hwy.

Sefydlwyd Doniau Cudd yn 2003 gan Ganolfan Gerdd William Mathias a'r tiwtor Arfon Wyn pan nodwyd angen am ddarpariaeth gerddorol i oedolion ag anableddau dysgu am nad oedd ganddynt fawr o gyfle i ymgyfranogi o gerddoriaeth unwaith yr ymadawsant â'r ysgol. Estynnodd Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd gymorth i sefydlu'r dosbarth cyntaf gyda 10 o aelodau. Erbyn hyn cynhaliant ddau ddosbarth gyda'r hwyr nos Iau yng Ngaleri, Caernarfon, gyda thros dri deg o oedolion yno rhwng y ddau ddosbarth. Cynhelir dosbarth hefyd mewn canolfan ofal ddydd leol lle mae tuag 16 o bobl yn cymryd rhan a sefydlwyd dosbarthiadau hefyd ym Mhrestatyn (gan gydweithio â Gwasanaethau Celfyddydol Sir Ddinbych) a dosbarth misol ym Mhwllheli gan gydweithio â grŵp Mencap Cymru lleol. Mae pwyslais ar integreiddio gyda myfyrwyr a thiwtoriaid o Ganolfan Gerdd William Mathias a Phrifysgol Bangor yn mynychu dosbarthiadau i greu cerddoriaeth ochr yn ochr â'r oedolion. Sefydlwyd hefyd brosiect Doniau Cudd Iau yn 2012 oherwydd ceisiadau gan rieni a gweithwyr cymdeithasol. Mae cefnogaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwysig wrth ymgymryd â phrosiectau o'r fath am y gallant ddarparu cyngor arbenigol am anghenion yr ymgyfranogwyr a lefel yr oruchwyliaeth sydd arnynt ei hangen.



## Mess Up The Mess

Wrth gynnal 'A Queer Christmas', dywedwyd wrth Mess Up The Mess gan nifer o sefydliadau a grwpiau trawsrywiol na fyddai pobl drawsrywiol yn ymwneud â'u gwaith am y byddai'r bobl hynny'n tueddu eu hynysu eu hunain. Cynghorwyd hwy i ollwng y 'trawsrywiol' a gwneud y cynhyrchiad yn un Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn unig a pheidio â thrafferthu. Ond glynasant wrth eu bwriad gyda grwpiau cymunedol bychain a datblygu cysylltiadau lleol a chefnogaeth. A daeth pobl draws* i ymwneud â'r prosiect.

Mynegodd ymgyfranogwyr lesbiaidd, hoyw a heterorywiol o'r prosiect y farn ar y dechrau nad yw deurywioldeb yn bod mewn gwirionedd. Roedd golygfa am yr union fater hwn yn y ddrama, a aeth i'r afael ag ef, gan ei bwysleisio yn ystod y prosiect a chydweithiodd Mess Up The Mess â Bi Abertawe a Bi Cymru i gynnwys y gymuned ddeurywiol.

Cynhaliodd Mess Up The Mess hefyd brosiect heriol iawn gan gyfuno pobl ifainc y cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr a Moslemaidd i ddatblygu deialog rhwng y ddwy gymuned drwy ymgyfranogi o'r celfyddydau. Roedd yn anodd ar y cychwyn am fod y ddau grŵp yn wahanol iawn i'w gilydd gyda chynifer o rwystrau a materion canfyddedig. Roedd yn anodd cael o hyd i amseroedd i'r grwpiau gyfarfod â'i gilydd am nad yw llawer o'r Sipsiwn ifainc yn cymryd rhan tu allan i oriau ysgol, a'r Moslemiaid ifanc hwythau yn frwd am yr ysgol. Ond datrysodd Mess Up The Mess y broblem drwy wahodd awgrymiadau am leoliadau ac amseriadau gan y grwpiau a cheisio mynd i'r afael â phob anhawster a phob rhwystr fel y codasant. Roedd yn arbennig o anodd cael y Moslemiaid ifainc i ymweld â safle'r Sipsiwn ond llwyddasant yn y diwedd i gael amser i'w wneud.

## Circus Eruption

Mae Circus Eruption yn cysylltu â phob ysgol uwchradd yn yr ardal bob blwyddyn. Byddant yn mynychu gwasanaeth ysgol neu'n cynnal sesiynau rhoi cynnig arni amser cinio i ennyn diddordeb y bobl ifainc.

Cysylltant â llyfrgelloedd, grwpiau ieuenctid, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, cartrefi gofal a sefydliadau yn y trydydd sector bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n gyfarwydd â Ffrwydrad Syrcas a chynhyrchir llawer o ddiddordeb drwy bobl yn siarad. Erbyn hyn daw llawer o gyfeiriadau iddynt drwy eu henw da a'u cysylltiadau.

Cynhaliant sesiynau allgymorth hefyd. Targeda'r rhain sefydliadau ac elusennau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r cwmni a'r hyn a wnânt.



Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Yr hyn a ddysgwn o'r enghreifftiau hyn:

## Mae'n bwysig meithrin perthnasau

Mae pobl o wahanol grwpiau na ddônt fel rheol i'ch lleoliad (nac ymgyfranogi o'ch gweithgareddau) yn llawer debycach o'i wneud petai ganddynt ryw fath o berthynas gyda chi. Maent yn llai tebyg o ymgysylltu heb y berthynas honno hyd yn oed os gosodwch hysbyseb sy'n berthnasol iawn iddynt.

> *"Mae datblygu cysylltiadau da â rhwydweithiau cymunedol yn hanfodol ac ni ellid eu hepgor. Mae arnoch angen dod o hyd i'r bobl a'r grwpiau cymunedol lleol a threulio amser hir yn sefydlu a datblygu cysylltiadau ac ymddiriedaeth gyda hwy, a fydd yn eich cyflwyno wedyn i ymgyfranogwyr yn y gymuned. Mae'n bwysig adeiladu ymddiriedaeth gyda'r ymgyfranogwyr oherwydd iddynt gael profiadau drwg yn y gorffennol pan ddaeth pobl atynt gan ddweud wrthynt yr hyn sy'n gweithio, ei sefydlu ac ymadael neu gyrraedd, cael eu barn ac ymadael. Mae'n rhaid iddynt wybod eich bod yn mynd i ddychwelyd ac y byddant yn gwrando arnynt gan eu cynnwys yn llawn a gweithredu ar yr hyn a ddwedant wrthych".*

## Gellir cynnwys aelodau o'r gymuned mewn gwahanol ffyrdd

Cofiwch y gall pobl o'r cymunedau ddechrau ymwneud â'ch sefydliad mewn llawer iawn o wahanol ffyrdd. Dyma ychydig o enghreifftiau y daethom ar eu traws wrth ymchwilio'r arweiniad hwn: Gwirfoddolwyr, interniaethau, gweithwyr, cynulleidfa, artistiaid, profiad gwaith, aelodau o'r bwrdd. Mae unrhyw ymwneud yn debygol o ennyn eu diddordeb yn eich gwaith. A chyn gynted eu bod yn ymwneud â'ch sefydliad mae'n debyg y bydd ganddynt gysylltiadau â'u cymuned y gellid eu defnyddio i ledaenu'r gair amdanoch.

## Mae nifer o ffyrdd i gael pobl drwy'r drws

Os oes gan eich lleoliad ystafelloedd cyfarfod, cynigiwch hwy am brisiau is i'r grwpiau cymunedol fel ffordd iddynt ddod yn y lle cyntaf ac ymgyfarwyddo â'r lle. Gall hyn adeiladu'r berthynas.

## Meddyliwch am sut yr ydych yn defnyddio eich proses o gaffael

Gweler, er enghraifft, yr achos astudiaeth ar fwyty Ffresh yng Nghanolfan Mileniwm Cymru dan swyddogaeth 'Caffael'. Enghraifft arall fyddai defnyddio cwmni argraffu bychan a reolir gan aelodau o gymuned ethnig i argraffu eich cyhoeddusrwydd. Gall fod yn ffordd effeithiol i ennyn eu diddordeb yn eich gwaith.

## Mae'n bwysig cefnogi'r bobl sy'n ymgysylltu â chymunedau

Mae llawer o wahanol bobl mewn sefydliadau sy'n ei wneud, megis prif weithredwyr (sy'n ymgysylltu ar lefel fwy strategol ac a all greu partneriaethau), swyddogion marchnata a swyddogion ymgysylltu â chymunedau. Mae hefyd bobl heb hyn yn eu disgrifiad swydd ond sy'n ei wneud beth bynnag oherwydd bod ganddynt y cysylltiadau neu am ryw reswm arall.

Pwy bynnag ydynt, bydd arnynt angen cefnogaeth gweddill y sefydliad. Bydd ar reolwyr angen eu caniatáu i gymryd yr amser i fynd at y cymunedau i siarad â phobl. Cofiwch na fydd hyn bob tro yn cynhyrchu canlyniadau cyflym – cymer amser i adeiladu perthynas yn aml iawn. A bydd eraill drwy'r sefydliad sy'n ymateb pan fo eich swyddog ymgysylltu â'r gymuned yn dod ato a gofyn iddynt wneud rhywbeth yn wahanol. Hyn fydd y peth a fydd yn aml yn sbarduno grŵp penodol i wneud rhywbeth.

Os hoffech weithredu ar y syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu eu trafod gyda'ch tîm neu'ch cydweithwyr.

- Beth yw'r cymunedau yn eich ardal? Pa rai o'r cymunedau a dangynrychiolir o ran ymgyfranogi a pherfformio yn eich lleoliad, ac yn eich cynulleidfa a'ch ymgyfranogwyr?

- Sut gellwch ddechrau meithrin perthynas gyda'r cymunedau hynny?

- Pwy yw'r bobl yn eich sefydliad sydd yn y lle gorau i wneud hyn – neu a oes arnoch angen recriwtio rhywun penodol i wneud y gwaith?

- Pa gysylltiadau sydd gan bobl yn eich sefydliad eisoes?

- Pa wahanol ffyrdd y byddai'n bosibl ichi eu defnyddio i ymgysylltu â chymunedau lleol?

- Sut y sicrhewch fod y bobl a fydd yn gwneud hyn yn cael eu cefnogi gan weddill y sefydliad?

- Sut y byddwch yn annog eich sefydliad cyfan i groesawu amrywiaeth?

- Pa agweddau o'ch strategaeth ymgysylltu a gyflawnir orau drwy anfon rhywun i'r gymuned, a pha rai drwy eu hannog i ddod atoch chi?

Yn yr arweiniad hwn mae manylion cyswllt defnyddiol i'ch helpu i gysylltu ar y cychwyn.



## Rhaglennu er cydraddoldeb ac amrywiaeth

Un o'r ffyrdd amlycaf i annog cynulleidfa ehangach yw drwy raglennu'r celfyddydau sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Gall hyn gael effaith ond nid yw'n debygol o fod yn llwyddiant ysgubol ar ei ben ei hun. Ond gall rhaglennu fod yn arf defnyddiol o ran dangos eich diddordeb mewn atynnu cynulleidfa fwy amrywiol ac ystod ehangach o ymgyfranogwyr y tu hwnt i'r un hen wynebau.

O bosibl y byddai hefyd yn ddefnyddiol ichi ystyried rhaglennu gwaith a grëwyd, a berfformir neu a arddangosir gan grwpiau drwy amrywiol o artistiaid. Mae rhaglennu'r math hwn o waith yn debygol o fod yn ffordd rymus o atynnu pobl o'r cymunedau hynny. Ac os gwnaethoch eich gwaith ymbaratoi'n iawn - o ran ymgysylltiad blaenorol - byddwch hanner y ffordd i gynyddu ymgysylltiad â'ch gweithgareddau a diddordeb ynddynt.

Dyma ychydig o enghreifftiau o sut mae gwahanol sefydliadau wedi mynd ati o ran rhaglennu.

**Digwyddiadau Tic Tacs** – ymgysylltodd Galeri yng Nghaernarfon â chynulleidfa wahanol, sef ffans rygbi a'u teuluoedd, wrth gynnal digwyddiad y llynedd. Yn Ionawr 2014 cawsant sgwrs o flaen cynulleidfa gyda Nigel Owens yn rhan o Dic Tacs a gwerthwyd 305 tocyn a oedd yn llwyddiant mawr iawn. Yn holi Nigel Owens roedd Nic Parry a agorodd y sgwrs drwy ddyfynnu o hunangofiant y dyfarnwr pan sonia am ei ymgais i ladd ei hun oherwydd ei rywioldeb. Roedd yn ffordd annisgwyl i ddechrau noson o adloniant ysgafn ond daliwyd sylw'r gynulleidfa a chafodd Nigel Owens gymeradwyaeth fyddarol pan ymddangosodd ar y llwyfan a dechrau ymgysylltu â'r gynulleidfa. Pan drafodai fwlio, ymatebai dynion ifainc yn y gynulleidfa i'w sylwadau'n ffafriol a gofynasant lwyth o gwestiynau.

Cynnal **Galeri** ddigwyddiad cerddorol misol gyda chynnwys unigryw wedi'i anelu at bobl hŷn (o'r enw 'Tonig'). Mae'n gwerthu'n dda ac mewn gwirionedd yn aml y gwerthir pob tocyn. Codant £3 y pen gan gynnwys mynediad, paned a chacen, ac fel rheol talant am eu costau'n unig. Gydag un digwyddiad mae pianydd sy'n perfformio alawon o fyd y ffilmiau a thaflunnir y geiriau ar y sgrin i annog y gynulleidfa i'w canu. Fel arfer y mae'n rhaid i Galeri dynnu'r ddwy res gyntaf o seddi yn y neuadd i gyngherddau Tonig am fod cynifer o bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yno.

Gwahoddodd **Taliesin** ganwr o Balesteina - Reem Kelami - i berfformio. Gwnaethant yn siŵr bod ganddynt gynulleidfa amrywiol iawn drwy siarad â nifer o wahanol grwpiau a fyddai â diddordeb yn y perfformiad. Er enghraifft, hysbysebwyd ym more coffi misol y gymuned Balesteinaidd leol. Siaradasant hefyd â'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd a'r eglwysi a'r canolfannau crefyddol lleol.

Mae **Gwanwyn** yn ddigwyddiad celfyddydol cyhoeddus sy'n dathlu creadigrwydd ymhlith pobl hŷn. Am eu bod am adnewyddu'r ŵyl, fel y byddai'n llai ystrydebol ac yn fwy blaengar yn hytrach na rhyw lun o hen ddawns de, comisiynasant ffotograffydd o Wlad Pwyl a fydd yn archwilio tatŵau pobl dros eu hanner cant oed a gweld sut y datblygasant dros fywyd y person. Ystyriant pa mor wir yw'r dywediad: "Henach henach ffolach ffolach"



Gŵyl Gwanwyn 2014

**Theatr Oily Cart:** Mae Theatr Oily Cart yn gwmni Llundeinig sydd mewn busnes ers 30 mlynedd. Mae'n dyfeisio sioeau seiliedig ar gyfer plant a phobl ifainc gyda sawl anhawster dysgu dwys. Daeth Theatr Oily Cart i Galeri fis Ionawr diwethaf i gynnal gweithdy hyfforddi gydag artistiaid lleol mewn prosiect o'r enw From Scratch. Roedd y gweithdai hyn yn llwyddiannus iawn gynt yn Chicago. Bu Theatr Oily Cart yn gweithio am bythefnos gydag artistiaid/rheolwyr llwyfan/dylunwyr set/ actorion/cerddorion lleol ac yn y blaen ac, ar ôl iddynt ymadael, aeth grŵp Galeri i ysgol leol i gynnal ei ddigwyddiad Llechen Lân ei hun, a seiliwyd ar thema ganolog o lanhau'r llechen o'r holl ragdybiaethau sydd yno. E-bostiodd Theatr Oily Cart ar ôl y digwyddiad i ddweud mai dyna oedd "y digwyddiad hyfforddi mwyaf llwyddiannus" y buont ynddo ac meddai ei Chyfarwyddwr Artistig fod y pythefnos gyda thîm Galeri wedi bod yn "bythefnos heb ei ail" yn ei holl yrfa yn y theatr. Cytunodd Cyfarwyddwr Artistig Galeri ei hun a'r artistiaid a oedd yn ymwneud â'r prosiect nad oeddynt yr un bobl ar ddiwedd y prosiect ag yr oeddynt gynt.

Ar ôl gweithgarwch Theatr Oily Cart - a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru - cawsant hyfforddiant Macaton (arwyddion/symbolau) a sawl anhawster dysgu dwys am wythnos. Gobaith Galeri yw datblygu'r gwaith hwn yn bellach a gwnaethant gais am grant oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu Llechen Lân a mynd â hi ar daith i dair ysgol anghenion arbennig yng Ngwynedd a Môn.

Mae **Chapter** yn dangos ffilmiau duon ac ethnig am y flwyddyn nesaf yn brosiect partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl nad ydynt fel rheol yn ymadael â'u cartrefi a rhan o'r digwyddiadau yw darparu lle i weddïo, meithrinfa ar wahân a bwyd halal. Daeth 121 o bobl i weld y ffilm ddiwethaf ac mae'r nifer yn tyfu.

Maent hefyd yn dangos ffilmiau Bollywood ac yn gwneud newidiadau i sut y mae eu rhaglennu'n gweithio i gefnogi'r rhain. Mae'n anodd am fod y ffilmiau'n aml yn cyrraedd oriau'n unig cyn iddynt gael eu dangos ac mae'n rhaid i'r taflunwyr medrus weithiau roi'r ffilm at ei gilydd ar ôl dechrau dangos y rhan gyntaf oll. Mae'r digwyddiadau bob tro'n orlawn.

## Yr hyn a ddysgwn o'r enghreifftiau hyn:

Gall rhaglennu gwaith perthnasol i wahanol grwpiau (neu waith sy'n ennyn eu diddordeb) ddarparu llwyfan defnyddiol i ymgysylltu â'r grŵp hwnnw neu'r gymuned honno. Gall fod yn ffordd i agor drysau i aelodau o'ch cymuned leol na ddônt fel arfer i'r gweithgareddau sydd gennych ar gynnig.

Serch hynny, nid yw rhaglennu'r gwaith yn unig - boed yn berfformiad, yn arddangosfa neu'n weithdy - yn warant ynddo ei hun y daw'r bobl yr hoffech eu hatynnu. O bosibl y bydd arnoch angen cymryd camau pellach i fynd at y gymuned a rhoi gwybod iddynt am yr hyn a gynlluniwch neu weithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr o'r gymuned. Mae cael eu mewnbwn i'r rhaglen yn gam cadarnhaol iawn tuag at ymgysylltu â hwy o ran eich gwaith.

Unwaith eto mae'n ymwneud ag adeiladu'r berthynas – meddyliwch am eich cyhoeddusrwydd; pa mor hawdd ydyw i bobl gyrraedd eich lleoliad; pa mor gyfforddus y teimla'r ymwelwyr wrth ddod drwy'r drws; a pha fath o groeso a gânt wrth iddynt ddod i mewn.

Gall eich staff/tîm neu ffrindiau a chysylltiadau fod yn adnoddau gwerthfawr i'ch helpu i benderfynu ar eich rhaglen. Er na fydd y bobl hyn yn dangos nodweddion amrywiol amlwg, gallant er enghraifft fod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, neu fod ag anabledd cudd (neu fod anabledd gan bobl yn eu cylch o ffrindiau).

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Pan rydych yn cynllunio eich rhaglennu, a ydych yn ystyried cydraddoldeb strategol ac amcanion amrywiaeth? A ydych yn gwybod am y bylchau yr ydych eisiau mynd i'r afael â nhw a pha fath o weithgarwch celfyddydol sydd ar gael ichi i fynd i'r afael â nhw?

- Sut gall eich rhaglennu gynorthwyo mentrau eraill yn y sefydliad i amrywio'r gynulleidfa a'r cyfranogi?

- A all eich rhaglen fod yn sbardun i weithgareddau eraill a fydd o gymorth i chi hyrwyddo eich amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth?

- A ydych yn gwybod ble i chwilio am artistiaid, sefydliadau celfyddydol ac ymarferwyr sy'n cynhyrchu a chyflenwi gwaith a allai eich helpu i symud ymlaen ar eich amcanion cydraddoldeb?

- Pa gysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol sydd gennych yn barod y gallech ofyn iddynt am farn neu syniadau i amrywio eich rhaglen?

- Sut bydd pobl o'ch cynulleidfa darged (ond efallai nad ydynt yn rhan o'ch cynulleidfa ar y funud) yn gwybod bod y gwaith yn berthnasol iddynt?

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Estyn allan i'ch cynulleidfa bosibl

Y peth allweddol fan hyn yw amrywiaeth. Fel mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau yn ymwybodol ohono, po fwyaf o ffyrdd amrywiol y gallwch greu cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau, y mwyaf tebygol ydych i gyrraedd grwpiau gwahanol. Nid yw'n gymhleth. Mae enghreifftiau nodweddiadol yn amrywio o gyfryngau cymdeithasol modern i ddulliau traddodiadol (ond sydd heb ddyddio) fel hysbysfwrdd cymunedol. Wedi dweud hynny, mae gwahanol grwpiau yn dewis ymgysylltu â chyfryngau gwahanol mewn gwahanol ffyrdd. Mae bob tro yn ymwneud ag adnabod eich cynulleidfa darged.

> *"Mae cymysgedd o gyfathrebu ar-lein ac all-lein yn allweddol i gyrraedd pawb. Rhaid i chi edrych ar ble mae pobl yn cael gafael ar wybodaeth yn lleol, gan ei fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig a threfol a phob ardal wahanol. Mae pobl yn dal i gymryd sylw o hysbysfyrddau mewn llyfrgell a thaflenni a phapurau newydd lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae eu cymysgu â radio lleol, wyneb yn wyneb, cyfryngau cymdeithasol ac ati yn bwysig, a chofiwch nad pobl ifanc yn unig sydd ar y cyfryngau cymdeithasol."*



Carnifal SWICA, Festival No. 6 2014, Portmeirion (llun: Dan Green)

Cawsom ystod eang o ddulliau diddorol pan oeddem yn gwneud ein hymchwil.

Mae **Dawns i Bawb** yn ceisio gwneud eu cyfathrebu yn hygyrch. Er enghraifft, ychydig iawn o ysgrifen sydd ar eu posteri, fel y gallant ddefnyddio ysgrifen fawr ac osgoi lliwiau penodol (e.e. oren ar wyn). Maent yn defnyddio Facebook i gyrraedd at bobl ar gyfer y sioe deulu gydag artistiaid rhyngwladol sydd ar y gweill ganddynt.

Newidiodd **Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwylliannol De Cymru** yr iaith a ddefnyddiant yn eu cyhoeddusrwydd o safbwynt celfyddydol i safbwynt cyfranogwr (hynny yw, defnyddiwyd iaith 'gwrth-gelfyddydol'). Diben hyn oedd helpu'r gynulleidfa i gysylltu mwy â chynnwys y gwefannau/cyfryngau cymdeithasol a rhoi mwy o bwys i agweddau ar y perfformiad/rhannu profiad/cyfranogi.

Mae llyfryn Theatr **Torch** ar gael ar ffurf sain hefyd. Mae'n fwriad gan Galeri wneud hyn hefyd, gan i aelod dall o grŵp dawns a berfformiodd yn y theatr dynnu sylw at y ffaith y buasai fersiwn sain o'u llyfryn yn ei galluogi i wybod beth oedd ar y gweill.

Dangosodd **Arad Goch** yn glir, os ydych eisiau i bobl ddod i weld eich gwaith pan rydych ar daith, mae'n hanfodol ichi weithio drwy'r math yma o rwydweithiau lleol. Maent yn gweithio drwy sefydliadau megis yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifainc, Sefydliad y Merched/Merched y Wawr, nad ydynt yn cael eu hystyried, efallai, yn sefydliadau celfyddydol. Ond mae gan Glybiau Ffermwyr Ifanc gynhyrchiad theatr bob blwyddyn, gan gylchdroi rhwng pantomeim, adloniant ysgafn neu ddrama. Mae'n rhan bwysig o'u bywyd ond efallai nad yw bob amser yn cael ei gydnabod yn gyfranogiad artistig.

Mae llawer wedi cael ei gyflawni dros y blynyddoedd ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sut y gall pobl gael mynediad at wybodaeth am y celfyddydau. Ond mae'n werth atgoffa ein hunain o rai agweddau allweddol y dylem feddwl amdanynt:

## Darparu gwybodaeth i bobl anabl

Dylai pobl anabl wybod pa mor hygyrch yw eich perfformiad, arddangosfa neu weithdy. Yn rhannol, gallai hyn olygu pa rannau o'r lleoliad sy'n gorfforol hygyrch (os nad yw i gyd yn hygyrch), ond hefyd gall olygu sut i gael gwybodaeth am ba berfformiadau sy'n hygyrch e.e. isdeitlau meddal; disgrifiad sain; dehongliad Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac ati.

Ewch i http://investigatecreate.co.uk/events am enghraifft lle gallwch chwilio am sioeau yn ôl symbolau hygyrchedd, a http://www.festival.org/visit/ am enghraifft o lyfryn sydd ar gael fel disgrifiad sain ac yn Iaith Arwyddion Prydain

## Ble'r ydych yn hysbysebu?

Gall rhai cymunedau ethnig lleiafrifol fod yn llai tebygol o weld cyhoeddusrwydd mewn papurau newydd. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd gynyddol boblogaidd ac effeithiol i ddenu cynulleidfaoedd, ond gallant fod yn eithrio rhai hefyd – pobl hŷn, er enghraifft.

## Beth rydych yn dweud?

Mae'r iaith a ddefnyddir yn bwysig. Er enghraifft, sut gallwch chi gyrraedd pobl yn eich cymuned sydd â Saesneg yn ail iaith iddynt? Gall hyn olygu siaradwyr Cymraeg, neu ieithoedd a ddefnyddir gan grwpiau ethnig lleiafrifol, yn dibynnu ar eich lleoliad.

Mae'r iaith a ddefnyddiwch hefyd yn ymwneud â'r hyn rydych yn ei ddweud, fel y dengys enghraifft Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwylliannol De Cymru. Gall adolygiad o ddigwyddiad mewn papur newydd dalen lydan edrych yn dda, ond efallai y bydd wedi ei ysgrifennu mewn arddull a fydd yn peri o lawer o bobl feddwl bod y digwyddiad yn rhy 'uchel ael' iddynt. Mae dulliau ar-lein ac e-farchnata yn cynnig hyblygrwydd a chyfle i addasu ychydig ar neges farchnata i bob grŵp penodol. Wrth wneud hyn gallwch dynnu sylw at negeseuon allweddol a newid yr iaith fel bo'r angen.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Pa gyfryngau ddefnyddiwch chi i hybu eich gweithgareddau ar y funud?
- Pa gyfryngau gwahanol y gallech ddefnyddio i gyrraedd pobl nad ydych yn eu cyrraedd ar y funud?
- Sut gallwch chi wneud eich cyfathrebu a'ch cyhoeddusrwydd yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau?
- Ble rydych chi'n hysbysebu ar y funud? Pa lefydd eraill y gallech eu defnyddio i hysbysebu i gyrraedd pobl nad ydych yn eu cyrraedd ar y funud?
- Sut mae eich cyhoeddusrwydd yn cyfathrebu â gwahanol grwpiau bod celf iddynt hwythau hefyd a'i bod yn berthnasol iddynt?
- Ym mha wahanol ieithoedd fydd eich cyhoeddusrwydd yn cael ei gyhoeddi neu ar gael ynddynt? (Wrth ystyried ym mha ieithoedd fydd y cyhoeddusrwydd ar gael ynddynt, sut byddwch yn gwneud pobl yn ymwybodol bod y cyhoeddusrwydd ar gael mewn gwahanol ieithoedd a fformatau, fel Braille neu brint bras, a sut i wneud cais amdanynt?)
- Sut mae eich cyhoeddiadau a'ch cyfathrebu yn tynnu sylw at hygyrchedd eich gweithgareddau, neu fel arall?
- Sut rydych yn hyrwyddo unrhyw drefniadau arbennig o ran tocynnau i bobl anabl neu grwpiau eraill?
- A yw eich cyhoeddusrwydd yn glir ac yn berthnasol i bobl nad ydynt ymwneud â'r celfyddydau ar hyn o bryd?
- Sut gallwch chi berswadio pobl y cânt groeso ac y byddant yn teimlo'n gyfforddus?
- Sut gall eich cysylltiadau cymunedol eich helpu i hybu eich gwaith?

## Tocynnau

Mae hyn yn cwmpasu nifer o feysydd gwahanol:

- Sut a ble mae'r tocynnau ar gael
- Trefniadau tocynnau arbennig – er enghraifft i bobl anabl sydd eisiau dod â chynorthwywyr personol neu weithwyr cymorth gyda nhw, neu sydd eisiau mynediad i barcio anabl
- Tocynnau rhatach neu am ddim i bobl na fyddai fel arall yn gallu eu fforddio.

Rydym hefyd wedi cynnwys enghreifftiau o sefydliadau sydd wedi mentro trefnu cludiant i bobl i ddod i ddigwyddiad.

### Enghreifftiau o arferion da

Mae **Clwyd Theatr Cymru** wedi gweld lleihad yn y gynulleidfa ymhlith pobl ifainc hyd at 30 oed, ac yn enwedig ymhlith y rhai sy'n hŷn na'r oed bod yn rhan o'r system addysg orfodol. Gall hyn fod oherwydd nifer o resymau gan gynnwys cyflogaeth (neu fod yn ddi-waith), symud i ffwrdd er mwyn mynd i'r coleg gan ddychwelyd yn ystod gwyliau'n unig, meddu ar gyfrifoldebau newydd a gorfod rheoli eu harian prin eu hunain. Erbyn hyn cyflwynodd Clwyd berfformiadau 'talwch yr hyn y gellwch ei fforddio' ar gyfer y grŵp oed hwn i'w annog i ddod yn ôl i'r lleoliad a mwynhau ei gynnig iddynt.

Mae **Dawns i Bawb** yn codi prisiau isel (£2-£4) i gymryd rhan mewn dawns, fel elfen allweddol i sicrhau bod eu sesiynau ar agor i bawb ac nad yw tlodi a'r ffaith bod pobl yn byw mewn ardal wledig yn rhwystrau i gymryd rhan. Ond mae goblygiadau i hyn o ran adnoddau i'r sefydliad, ac anawsterau o ran capasiti. Mae perfformiadau sy'n cynnwys artistiaid proffesiynol a rhyngwladol, hyd yn oed, yn cael eu capio ag uchafswm o £10 i oedolion, ac mewn un perfformiad mae tocynnau i blant ar gael am £2 i annog rhieni i ddod a'u plant ac i annog mwy o bobl ifanc i fynychu.

Mae **Taliesin** yn gysylltiedig â chymunedau Asiaidd lleol sy'n byw yn Sandfields, Abertawe. Daethant i ddeall na allai'r gymuned hon yn benodol deithio i'r ganolfan i brynu tocynnau wyneb yn wyneb. Felly i geisio goresgyn y broblem hon, mae Taliesin erbyn hyn yn defnyddio siopau lleol yn ardal Sandfields i werthu tocynnau yn yr ardal honno a hefyd drwy'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd. O ganlyniad, mae'r cymunedau hyn yn cael llai o broblemau wrth gael mynediad i'r gwasanaeth tocynnau.

Bu **Torch** yn cydweithio â PATCH (Gweithredu yn erbyn Caledi Sir Benfro). Rhoesant docynnau iddynt i berfformiad pantomeim penodol a ddosbarthwyd gan PATCH i'r rhai na fyddai fel arall wedi gallu fforddio mynd. Mae gan Torch berthynas â PATCH a gobeithiant y bydd yn parhau.

Mae Canolfan Celfyddydau **Chapter** yn rhedeg dwy system gredyd banc amser sydd yn boblogaidd ac yn rhoi tocynnau am ddim i bobl yn gyfnewid am eu hamser.

Mae gan **Opera Genedlaethol Cymru** nifer fawr o docynnau ar gael i bob sioe ar bris is (£6) i bobl ifanc a chymunedau difreintiedig a grwpiau eraill. Mae Opera Genedlaethol Cymru gweithio gyda grwpiau cymunedol ar brosiectau ac yn targedu gwerthiant y tocynnau hyn gan eu hybu i gysylltiadau sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig cyn eu bod yn cael eu gwerthu'n gyhoeddus. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, maent yn cysylltu â phob arweinydd Amcan 1 ymlaen llaw.

Darparodd **Canolfan Mileniwm Cymru** docynnau i bobl o ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful fynychu perfformiad o'r Lion King, a'u cael ar y llwyfan gyda'r perfformwyr. Roedd hyn yn rhan o'u strategaeth i ymgysylltu â'r gymuned.




Côr Caia, Opera Cenedlaethol Cymru (llun: Jeni Clegg)

Mae'r Cynllun Cerdyn Cenedlaethol i Ymwelwyr Anabl, a elwir yn HYNT bellach, yn fenter gan Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n cael ei reoli gan Greu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru. Mae'r prosiect yn galluogi i gwsmeriaid anabl a'u gofalwyr gael gostyngiadau cyson i ofalwyr wrth iddynt brynu tocynnau ar draws holl theatrau Cymru. Y bwriad yw y bydd y prosiect hefyd yn cael ei ddefnyddio yn sbardun i gefnogi theatrau a chanolfannau celfyddydol a'r sector yn ehangach i fynd i'r afael â phroblemau ehangach yn ymwneud â hygyrchedd. Er bod y manylion eto i'w cytuno ar hyn o bryd, y mae wedi'i gytuno na fydd angen i ofalwr dalu am sedd. Bydd y rhai sy'n gymwys yn derbyn cerdyn Hynt a all gofnodi dewisiadau cwsmeriaid anabl. Bydd lleoliadau a fydd yn rhan o'r cynllun yn cael cynnig hyfforddiant hygyrchedd gan Included Arts.

Mae'r enghreifftiau uchod yn dangos sut mae sefydliadau wedi newid eu polisïau tocynnau i helpu i gael gwared ar rwystrau i bobl gael eu cynnwys. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys pris tocyn, hygyrchedd (yn nhermau pobl yn gallu cael gwybod am docynnau a'u cael), a chludiant i leoliad.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Sut rydych chi'n rheoli eich systemau tocynnau ar hyn o bryd?
- Sut gallent gael eu gwella i sicrhau bod gan bob grŵp fynediad i'ch gwaith celf?
- Ble arall y gallech werthu tocynnau er mwyn gwerthu mwy (mewn siopau lleol, er enghraifft)?
- Pa fantais fydd i docynnau gwell o ran gwella amrywiaeth y gynulleidfa neu'r cyfranogwyr?
- Pa fathau o ostyngiadau neu 'gonsesiynau' allai fod ar gael gennych?
- A yw meini prawf pob gostyngiad yn glir ac yn hawdd eu canfod?
- Pa mor glir yw'r dolenni i docynnau am bris gostyngol ar eich gwefan? A ydynt yn amlwg neu a oes yn rhaid i bobl chwilio amdanynt?
- Sut mae prisiau gostyngedig neu docynnau am ddim yn gweddu i'ch model busnes?

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Blaen Tŷ

Mae eich gweithwyr/gwirfoddolwyr blaen tŷ yn allweddol. Nhw yw 'wyneb cyhoeddus' eich lleoliad, a'r bobl sydd yn rhyngweithio gyntaf â chynulleidfaoedd ac ymwelwyr eraill. Maent felly yn hanfodol i brofiad cyffredinol eich ymwelwyr oll, ac yn benodol i bobl a allai fod yn llai cyfarwydd â'ch lleoliad a beth all ei gynnig. Y bobl hyn o bosib fydd yn teimlo fwyaf pryderus am gerdded drwy eich drysau.

Mewn ffordd, mater o ofal cwsmeriaid sylfaenol yw ymdrin ag amrywiaeth fel hyn – yn gallu diwallu anghenion amrywiaeth eang o gwsmeriaid.

Fodd bynnag, gall hyn fod yn heriol weithiau i staff blaen tŷ ac efallai y bydd ganddynt ddiffyg hyder. Efallai eu bod yn awyddus i helpu a diwallu anghenion amrywiaeth eang o bobl, ond yn achos grwpiau nad ydynt mor gyfarwydd â nhw, fel pobl anabl neu bobl o gefndiroedd ethnig gwahanol, efallai y byddant yn bryderus. Nid yw hyn yn eu helpu i roi'r gwasanaeth cwsmer gorau.

Mae'n bwysig bod eich staff blaen tŷ yn ymwybodol o beth allai anghenion unigolion neu grwpiau penodol fod ac os allant gael eu diwallu a sut. Dylai hyn oll gael ei ystyried ymlaen llaw cyn i gais gael ei wneud fel rhan o hyfforddiant blaen tŷ. Er enghraifft: a oes ystafelloedd gweddïo ar gael ac a ydynt yn hygyrch; trefniadau parcio hygyrch; cynlluniau croesawu bwydo o'r fron; dolenni sain a hygyrchedd; ystafelloedd newid babi i dadau a phobl anabl, ac ati. Mae gallu ateb cwestiynau pobl yn gyflym ac yn ymarferol yn gwneud gwahaniaeth mawr i brofiad rhywun o'ch sefydliad.

Drwy ein hymchwil rydym wedi canfod nifer o enghreifftiau.

### Enghreifftiau o arferion da (a drwg)

Gyrrwyd yr adborth canlynol i **NoFit State Circus** gan fam Libby, merch 7-8 oed. Mae Libby yn blentyn sydd â pharlys yr ymennydd, ac mae angen iddi ddefnyddio cadair olwyn. Dywedodd ei mam ei bod yn ddiolchgar ac fe'i synnwyd pan wnaeth stiwardiaid y sioe siarad yn uniongyrchol gyda Libby yn hytrach na gofyn i'w mam beth oedd Libby ei angen. Nid oedd yn rhywbeth yr oeddent yn disgwyl fyddai'n digwydd. Yn anffodus, roedd Libby a'i mam wedi arfer â sefyllfaoedd lle câi Libby ei hanwybyddu am ei bod mewn cadair olwyn. Roedd y sefydliad yn priodoli'r stori hon o lwyddiant i'w hethos o sicrhau bod y stiwardiaid yn darparu ar gyfer anghenion pawb.

Mae **Venue Cymru** bob amser yn gwneud yn siŵr bod siaradwyr Cymraeg ar ddyletswydd er mwyn i gwsmeriaid allu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Yng **Nghanolfan Celfyddydau Chapter**, mae tywyswyr a staff rheng flaen yn derbyn hyfforddiant penodol mewn ymwybyddiaeth cwsmer, sy'n cynnwys hygyrchedd i bobl anabl; gweithdrefnau gwagio'r lleoliad i gwsmeriaid anabl; defnyddio'r gadair wagio ac ati. Derbyniodd staff hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd gan gynnwys hyfforddi'r hyfforddwr sawl blwyddyn yn ôl a hyfforddiant sylfaenol Iaith Arwyddion Prydain, a oedd yn ddefnyddiol iawn (er bod angen ei ddiweddaru ac mae aelodau newydd o staff yno bellach).

Caiff staff **Taliesin** eu hannog bob amser i dderbyn hyfforddiant (yn arbennig staff blaen tŷ sy'n ymdrin â'r cwsmeriaid yn uniongyrchol). Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ac anabledd. Mae hyfforddiant ystyriol i deuluoedd yn gymorth i staff gynnwys y grwpiau hyn ac i annog ymwelwyr sydd yno am y tro cyntaf i ddod yn fynych i Taliesin.

Bu i un lleoliad hysbysebu ffilm fel un a oedd â disgrifiad sain, ond pan aeth rhywun a oedd â nam ar eu golwg yno, nid oedd y gwasanaeth ar gael. Ymddiheurodd y lleoliad gan roi paned o de i'r ymwelydd tra eu bod yn ceisio datrys y broblem. Ni lwyddwyd i'w datrys, ond fe roesant rif ffôn uniongyrchol at rywun y gallai'r ymwelydd siarad ag ef/hi y tro nesaf y bydd eisiau ymweld. Er bod yr ymwelydd yn siomedig i ddechrau, gadawodd gan deimlo y caiff groeso y tro nesaf y bydd yno, ac y bydd y trefniadau angenrheidiol yn eu lle.



Band Pres Bollywood yng Ngŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un, Chapter (llun: Jon Pountney)

## Sut i beidio â'i wneud!

Bu i dderbynnydd weiddi ar unigolyn a oedd â nam ar ei chlyw wedi iddi ddweud 'pardwn' ddwywaith mewn ymateb i fwmian y derbynnydd. Roedd yr unigolyn, a oedd yno ar ran sefydliad anabledd, yno i gael cyfarfod ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth. Teimlodd fel gadael yn y fan a'r lle, ond daliodd ati. Nid oedd, fodd bynnag, y ffordd orau i ddechrau cyfarfod . . .

## Croeso Cyffredinol

Mae gan rai sefydliadau 'groesawyr' – pobl sydd yn sefyll ger y drysau, yn croesawu pobl wrth iddynt ddod i mewn a chynnig cymorth i rai sy'n edrych ychydig yn ddryslyd neu'n ansicr ohonynt eu hunain. Cofiwch fod rhai pobl yn gyfarwydd â mynd i mewn i adeiladau mawreddog ac yn ystyried hynny yn rhan o'u profiad bob dydd. Os na fu'r fath brofiad yn rhan o'ch bywyd arferol, gall mynd i mewn i adeiladau mawreddog fod yn brofiad anodd. Yn yr achosion hyn, gall yr eiliad gyntaf o fynd drwy'r drysau fod yn frawychus iawn. Gall croesawyr helpu gyda hyn.

## Gweler hefyd

Gweler hefyd yr enghraifft o dan 'Ymdrin â Gwahaniaeth' yn yr adran Ystyriaethau Cychwynnol

## Beth a ddysgwn gan yr enghreifftiau hyn:

- Sicrhewch fod eich gweithwyr Blaen Tŷ yn ymwybodol o sut i ymdrin â gwahanol sefyllfaoedd y dônt ar eu traws neu y gofynnir iddynt amdanynt. Gall hyn fod yn 'ymddygiad derbyniol tuag at anabledd' – fel siarad yn uniongyrchol gyda'r unigolion anabl ac nid eu cynorthwyydd personol (yn yr enghraifft uchod); neu gofyn i unigolion anabl a oes angen cymorth arnynt cyn ymyrryd – efallai mai 'na' fydd eu hateb: peidiwch â chymryd yn ganiataol bod arnynt eisiau neu angen help. Gall materion eraill gynnwys ymdrin â gwahanol grefyddau, a/neu ymdrin â phobl nad ydynt yn rhugl yn y Saesneg neu'r Gymraeg.

- Edrychwch a ydych yn gallu canfod ffyrdd i gynnig hyfforddiant iaith i'ch staff. Ystyriwch gefnogaeth bellach drwy drefnu cyfleoedd cyson iddynt ymarfer –digwyddiad 'dewch i siarad Cymraeg dros ginio', er enghraifft.

- Cofiwch fod staff sy'n derbyn ymholiadau neu archebion dros y ffôn hefyd yn staff blaen tŷ. Mae'n bwysig sut maent yn rhyngweithio â chleient. Weithiau bydd yr heriau yn rhai cynnil. Er enghraifft, gallech dderbyn galwad gan rywun sydd nawr yn fenyw ond a anwyd yn wryw. Gallai ei llais swnio'n wrywaidd, er bod ei henw yn fenywaidd. Y peth olaf y bydd ei eisiau yw cael ei galw'n "syr"...

- Cofiwch fod eich tîm diogelwch a thechnegol hefyd yn staff blaen tŷ. Pa hyfforddiant maent wedi ei dderbyn, a pha mor hyderus ydynt wrth ymdrin â gwahanol heriau?

- Ni all neb wybod am anghenion pob lleiafrif neu ofalu am bob sefyllfa. Pwy fydd yr unigolyn addas y bydd staff blaen tŷ yn troi atynt os ydynt yn dod ar draws sefyllfa lle nad ydynt yn gwybod beth i'w wneud? Weithiau gall gofalu am ymholiad yn dda arwain at ganlyniad cadarnhaol (gweler astudiaeth achos uchod).

- Mae gwybodaeth yn helpu i wella hyder. Cofiwch y gall fod angen cymorth yn ystod hyfforddiant ar staff blaen tŷ i ystyried teimladau ynglŷn â diffyg hyder mewn sefyllfaoedd penodol. Un cwestiwn defnyddiol yw 'beth yw'r peth gwaethaf a all ddigwydd?' Drwy edrych ar sut y gellir ymdrin â sefyllfa, yn aml ni fydd y sefyllfa mor ddrwg ag oedd yn ymddangos i gychwyn.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Sut gallwch chi help eich gweithwyr/gwirfoddolwyr blaen tŷ i fod yn ymwybodol o anghenion amrywiaeth eang o grwpiau?

- Sut gwnewch chi wella eu gwybodaeth am ymddygiad derbyniol at anabledd, er enghraifft?

- Sut gwnewch chi gefnogi eich staff blaen tŷ i wybod beth mae eich sefydliad yn gallu ei wneud i ddarparu ar gyfer anghenion gwahanol?

- Sut gallwch chi eu helpu i fod yn fwy hyderus wrth ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl?

- Sut gwnewch chi eu helpu i fod yn fwy hyderus ac i allu ymdopi â heriau yn dda (gan gynnwys yr adegau hynny lle gallent wneud camgymeriad yn anfwriadol)?

- A oes unrhyw gyllid ar gael yn lleol i alluogi hyfforddi rhai o'ch staff blaen tŷ mewn iaith arwyddion sylfaenol er mwyn iddynt allu cwrdd a chyfarch aelodau o'r gynulleidfa (byddai hyn yn benodol o addas i berfformwyr lle mae Dehonglydd Iaith Arwyddion yn bresennol)?

- Faint o'ch staff sydd yn siarad Cymraeg? A yw'n bosibl sicrhau bod o leiaf un siaradwr Cymraeg ar ddyletswydd ar unrhyw adeg?

- A allwch chi weithio gyda grwpiau lleol i fod yn ymwybodol o'r anghenion a'r rhwystrau gwahanol sydd gan bob grŵp?

- Sut caiff pobl eu croesawu i'ch adeilad, yn enwedig os yw yn fawr ac yn fawreddog?

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Creu Gwaith

"Mae artistiaid yn creu'r hyn maent yn cael eu hysbrydoli i'w wneud ac ni fyddant fel arfer yn ystyried Cydraddoldeb a Gwahaniaeth wrth greu."

Mae'r dyfyniad hwn gan gyfwelai efallai'n amlygu agwedd draddodiadol at greu gwaith artistig. Mae cyfweleion eraill, ar y llaw arall, yn creu celf sydd, o'r cychwyn cyntaf, yn cwmpasu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn rhyw ffordd. Gallent gynnwys ystod eang o bobl yn gwneud celf, neu eu bod bwriadu gwneud gwaith sy'n apelio i gynulleidfa amrywiol. Efallai eu bod eisiau cyrraedd cynulleidfa na fyddai'n manteisio ar y celfyddydau fel arfer, neu efallai eu bod eisiau i'w gwaith gynnwys neges sy'n berthnasol i faterion amrywiaeth.

Gall gweithio gydag artistiaid amrywiol ehangu'r broses greadigol ac artistig yn fawr. Gall artistiaid sydd â safbwyntiau gwahanol (oherwydd eu rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed, ac ati) gynnig dealltwriaeth annisgwyl a gwerthfawr. Gall hyn gael effaith gadarnhaol ar gryfder a pherthnasedd y gwaith a grëwyd.

Wrth gwrs, mae gweithio gyda grŵp mwy amrywiol o artistiaid yn cynnig heriau na fyddech efallai yn eu disgwyl. Efallai y bydd angen ichi gynllunio cyfnodau ymarfer/datblygu hirach. Efallai y bydd yn rhaid ichi ganfod lleoedd gwahanol a newydd i ymarfer ynddynt. Bydd yn rhaid ichi fod yn agored i weithio'n wahanol, ac ni ddylech ddisgwyl i artist sydd ag anawsterau dysgu (er enghraifft) ffitio i mewn gyda'r ffordd yr ydych yn gwneud pethau ar hyn o bryd. Cadwch mewn cof fod hyn yn golygu datblygu eich arferion eich hun neu arferion eich cwmni.

Cynhyrchodd **National Theatre Wales** gynhyrchiad o In Water I'm Weightless yn 2012. Fe'i hysgrifennwyd gan Kate O'Reilly sydd â nam ar ei golwg, ac roedd y cast i gyd yn anabl. Darparodd **Celfyddydau Anabledd Cymru** Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd i staff a gwirfoddolwyr National Theatre Wales a weithiai ar y cynhyrchiad. Rhoddodd Celfyddydau Anabledd Cymru gymorth hefyd i farchnata'r perfformiadau yng Nghymru. Roedd y digwyddiad yn gwbl hygyrch (Iaith Arwyddion Prydain, tafluniad Saesneg, disgrifiad sain, taith gyffwrdd, lawrlwythiadau digidol) a chafwyd cyswllt â Swyddog Tân Cyngor Caerdydd i sicrhau bod lle yn y gynulleidfa i allu cael mwy o gadeiriau olwyn nag sydd fel arfer wedi ei neilltuo.



*In Water I'm Weightless*, National Theatre Wales (Llun: Farrows Creative)

## Oriel Talbot Rice

Bu Pandora's Light Box, prosiect gyda chyfranogwyr â nam ar eu golwg, ac Oriel Talbot Rice yng Nghaeredin, yn cydweithio gan ddwyn pobl sydd â nam ar eu golwg a bardd at ei gilydd i ymgorffori 3 cerdd i MEWN i ofod yr oriel. Dechreuodd y prosiect gyda grŵp o bobl sydd â nam ar eu golwg yn cydweithio â'r bardd Ken Cockburn i ddatblygu cerdd a fyddai'n disgrifio Oriel Talbot Rice. Drwy gyfres o weithdai, archwiliwyd i ddisgrifiadau ffisegol a synhwyrol o'r oriel. Awgrymwyd enw'r gerdd gan aelod o'r grŵp, yn dilyn ymarferiad cysylltiad geiriol a oedd ystyried gofod yr oriel. Deilliodd llawer o luniau a disgrifiadau yn y gerdd o syniadau a sgyrsiau a rannwyd o fewn y grŵp. Roedd rhyddid a chwmpas i'r trafodaethau am fod y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus a hyderus yn y grŵp ac yn hyderu y byddai eu syniadau yn cael gwrandawiad ac yn arwain at weithredu. Wedi i'r gerdd gael ei hysgrifennu, cafodd ei recordio, a phenderfynwyd rhoi lle iddi yn yr oriel ar ffurf gosodiad sain. Daethpwyd â'r artist cerameg Frances Priest i mewn i wneud teclynnau clust, neu declynnau gwrando, a fyddai'n dal y seinyddion. Yn dilyn sesiynau ymgynghori cychwynnol, cytunwyd ar declynnau clust yn cael eu dal â llaw, nid yn annhebyg i ffonau hen ffasiwn. Proses ar y cyd fu dewis y ffurf orau ar gyfer y teclynnau gwrando, lle y rhoddodd yr artist ei syniad cychwynnol o ddarnau yr oedd ei siapiau a'u gwead yn adlewyrchu gofod ffisegol y galeri i'r neilltu, gan ffafrio ymarferoldeb a symlrwydd. Câi'r prosiect hwn ei ffurfio a'i symud ymlaen yn barhaol gan syniadau a chyfraniadau'r grŵp, a chanlyniad hyn yw darn nodedig o gywaith celf. "Cawsom ein gwahodd i ddod a chyfrannu at rywbeth a fyddai yn yr oriel. Comisiynwyd artistiaid i gyfuno'r syniadau. I mi, mae'n bwysig cael y cyfle i gymryd rhan mewn ffordd gyfrannol a bod pobl yn gwrando."
Gweler: http://www.scribd.com/doc/121996186/Explorations-in-Participation
Gwrandewch ar y gwaith yma:
https://soundcloud.com/artlink-edinburgh/sets/pandoras-light-box

## Oriel Glynn Vivian

Yn 2012, gwnaeth Oriel Gelf Glynn Vivian sefydlu grŵp pobl ifainc (14-21 oed) fel rhan o brosiect dysgu a oedd yn gysylltiedig â 18 o orielau cenedlaethol eraill drwy gynllun partneriaeth Plus Tate. Roedd y prosiect yn caniatáu i bobl ifanc sefydlu eu digwyddiad artistig eu hunain. Y bobl ifanc oedd yn penderfynu ar bob agwedd ar beth fyddai eu prosiect, gan wneud yr holl waith trefnu a hyrwyddo yn ystod y cwrs 3 wythnos. Y penderfyniad oedd cynnal Brwydr y Bandiau yn yr YMCA, lle bu 7 o fandiau ifanc yn cystadlu gerbron cynulleidfa o 150 o bobl. Cynigiodd yr oriel y gefnogaeth a oedd ei hangen i sefydlu'r digwyddiad.

Parhaodd y grŵp pobl ifanc i dyfu a thrwy gydol haf 2013 bu iddynt gymryd rhan mewn cyfres o weithdai perfformio i Ŵyl Olion – menter celfyddydau ieuenctid yng nghymuned Townhill yn Abertawe. Eto, roedd hyn oll wedi'i gyfarwyddo gan y cyfranogwyr eu hunain a chafodd ei drefnu dros ychydig wythnosau yn yr haf.

Mae grŵp y bobl ifanc, Black Kettle Collective, yn parhau i ymateb yn greadigol i raglen yr Oriel, gyda chefnogaeth staff yr oriel.

Dylid penderfynu p'un ai i gynnwys grŵp amrywiol mewn darn o waith celf, unai fel cynulleidfa, cyfranogwyr neu fel artistiaid proffesiynol, ai peidio ar y pwynt y caiff y gwaith ei greu.

- Dylech ystyried cysylltiad artistiaid proffesiynol o gefndiroedd amrywiol fel creawdwyr arfaethedig yn ogystal â pherfformwyr, dylunwyr, ac ati.
- Efallai y penderfynwch y bydd rôl i artistiaid amatur yn y prosiect.
- Bydd angen i'ch tîm artistig fod â phrofiad o weithio gyda grwpiau penodol o bobl, neu dderbyn hyfforddiant i helpu hyn.
- Ystyriwch a fydd y darn o gelf a gaiff ei greu yn canolbwyntio'n llwyr ar themâu cydraddoldeb ac amrywiaeth, neu a ydych yn ceisio cynnwys themâu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith heb i hynny fod yn ganolbwynt llwyr neu bennaf.
- Dylech feddwl am bwy yw eich cynulleidfa.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Yn y broses o gychwyn creu darn o waith celf i'r cam lle y caiff ei gyflwyno i'r cyhoedd, ystyriwch beth yw'r adeg orau i ddechrau meddwl am gydraddoldeb?
- Pwy ydych yn eu cynnwys yn y broses greadigol? Pwy arall y gallech eu cynnwys nad ydynt wedi eu cynnwys ar hyn o bryd?
- A oes cyfleoedd gwaith yma i artistiaid o gefndiroedd amrywiol?
- Pan fyddwch yn creu darn o waith celf, pa neges yr ydych eisiau ei hanfon i bobl sydd yn ei weld?
- A oes pobl benodol yr ydych eisiau eu cyrraedd drwy eich celf? Os felly, sut gallwch chi gadw hyn mewn cof wrth ichi fynd drwy'r broses greadigol?
- Fel cwmni neu unigolyn sy'n creu a chynhyrchu celf, sut gall eich gwaith helpu i ddenu pobl drwy'r drws?
- A fydd eich gwaith yn berthnasol ac yn ddeniadol i gynulleidfaoedd amrywiol?
- A ellir tynnu sylw at themâu cydraddoldeb fel rhan o'ch gwaith?
- Pa rwystrau a allai fod yn wynebu artistiaid a sut gellid eu goresgyn?

## Mynediad i waith celf

Wrth greu darn newydd o waith efallai yr hoffech ystyried sut bydd eich cynulleidfa arfaethedig yn gallu ymgysylltu gydag ef. Mae hyn ymwneud yn rhannol, ond nid yn unig, ag anabledd corfforol (fel y dengys yr enghreifftiau isod).

### Enghreifftiau o Arferion Da

Mae gwasanaeth Mynediad i'r Celfyddydau **Artlink** yn rhoi cymorth ymarferol i bobl sydd ag anableddau i fwynhau'r celfyddydau yng Nghaeredin. Caiff 200 o aelodau eu cynorthwyo gan y gwasanaeth i fynd i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau mewn theatrau, orielau, amgueddfeydd, sinemâu, adeiladau hanesyddol, parciau cerfluniau... Nod y gwasanaeth yw sicrhau mai dewis ble i fynd yw'r peth anoddaf. Caiff gwybodaeth 'Beth sydd Ymlaen' ei darparu, caiff tocynnau eu harchebu gyda gwybodaeth am anghenion yr aelodau, a chaiff cludiant ei drefnu gyda gwirfoddolwyr sydd â diddordebau tebyg. Mae dros 100 o wirfoddolwyr yn cefnogi'r gwasanaeth drws i ddrws hwn, ac mae'n bwysig bod y gwirfoddolwyr a'r aelodau fel ei gilydd yn mwynhau'r profiad.

Gyda'r holl ddigwyddiadau hyn, mae'r gwasanaeth yn casglu llawer o adborth a ddefnyddir i wella mynediad i'r celfyddydau ar sail y profiadau go iawn hyn. Mae prosiectau yn creu cyfleoedd i gynulleidfaoedd ac artistiaid gydweithio wrth ddatblygu atebion creadigol i anawsterau mynediad. Mae'r cyswllt hir a sefydledig sydd gan Artlink ag amryw leoliadau yn golygu fod y syniadau hyn yn cael eu gweithredu. Enghraifft o hyn yw Pandora's Light Box (gweler hefyd o dan 'Creu Gwaith')

Pan ailwampiwyd **Theatr Torch** yn Sir Benfro, nid yn unig y gwnaethant yr adeilad yn gwbl hygyrch, (er enghraifft, drwy gynnwys lifft a chael toiledau anabl ar bob llawr), ond bu iddynt ymgynghori hefyd ar liwiau lloriau a waliau er mwyn sicrhau cyferbyniad lliw da i bobl sydd â nam ar eu golwg.

Mae gan Theatr Torch ddigwyddiadau sgrin pwrpasol i gymdeithas awtistig leol sydd â mwy o olau a lefel is o sain.



Theatr y Torch, Aberdaugleddau

Mae Chapter yng Nghaerdydd yn hybu a gweithredu'r cynllun croesawu bwydo o'r fron yn gywir. Hynny yw, mae croeso i fwydo o'r fron ym mhobman drwy'r adeilad ac mae staff yn ymwybodol i beidio herio mamau sy'n bwydo o'r fron, gan egluro i gwsmeriaid sy'n cwyno. Maent hefyd yn dangos ffilmiau i rieni a babanod. Maent yn sicrhau eu bod yn dilyn yr holl ganllawiau, fel croesawu plant eraill gyda'r rhiant, gan ddilyn canllawiau hygyrchedd i'r dangosiadau hyn fel sain ar lefel is a goleuadau'n aros arno, ond yn isel, drwy'r ffilm fel bod yr awyrgylch yn gyfforddus i fabanod. Maent hefyd yn gwneud popeth sy'n bosibl i wneud dangosiadau yn gyfforddus i fabanod.

Clwyd Theatr Cymru: Mae trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn anodd iawn, sy'n golygu nad yw perfformiadau, yn aml, yn hygyrch i ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus ar draws yr ardal. Mae'r bws yn gadael 5 munud cyn i berfformiadau orffen. Maent wedi ceisio cael trafodaethau gydag Arriva ynglŷn â threfnu i'r bws olaf adael 10 munud yn hwyrach, ond ni chafwyd unrhyw lwyddiant.

Rhan o waith Arad Goch yw edrych ar sut y gall technoleg ddigidol hybu cyfranogiad cynulleidfa. Rhoddir iPads i'r gynulleidfa ac mae'r hyn maent yn ei ysgrifennu yn ymddangos ar y sgrin (wedi'i hidlo) a gall y cymeriadau ymateb iddo. Y meddylfryd cyffredinol yw NAD yw'r gynulleidfa yno i wrando'n dawel. Wrth wneud cynyrchiadau i blant iau mae'r actorion yn disgwyl i bobl sibrwd wrth ei gilydd, bwyta creision ac ati, a byddant yn gwneud hynny'n iawn – efallai y byddant yn ymateb hyd yn oed.

Cafodd Taliesin anawsterau wrth geisio cael unigolion penodol i'r theatr (e.e. ni allai grwpiau penodol o ferched ddod ar y bws i'r theatr gan na allent fod ar fws gyda dynion, am resymau diwylliannol a chrefyddol). Trefnodd Taliesin i fysiau a thacsis i ddod â aelodau o'r gymuned i'r theatr (cludiant i ferched yn unig mewn rhai achosion).

*Mordaith Anhygoel Madog*, Arad Goch (llun: Keith Morris)



## Bwyd a Hygyrchedd

Weithiau bydd pobl yn meddwl am hygyrchedd yn nhermau anabledd corfforol neu synhwyrol, ond dyma rai enghreifftiau eraill:

Ers nifer o flynyddoedd, cynhaliwyd uchafbwynt **Mis Hanes Pobl Dduon** yng nghyntedd **Canolfan Mileniwm Cymru**, sydd hanner milltir i ffwrdd o'r gymuned amlethnig yn Butetown. Cafwyd problem ers rhai blynyddoedd nad oedd Ffresh, y bwyty yn y Ganolfan, yn barod i newid ei fwydlen, ac nad oedd y fwydlen yn ddeniadol i lawer o'r bobl sy'n mynychu'r digwyddiad. Yn ychwanegol, roedd y gymuned (amlethnig) leol yn ystyried bod bwyd yn bwysig wrth ddod â gwahanol ddiwylliannau at ei gilydd a rhannu hunaniaeth. O ganlyniad crwydrai llawer o bobl i ffwrdd o'r digwyddiad i'r ardal leol yn ystod amser cinio ac yn aml nid oeddynt yn dychwelyd. Eleni, o dan reolaeth newydd, roedd gan Ffresh ymagwedd newydd, a bu Mis Hanes Pobl Dduon yn gweithio gyda'r bwyty er mwyn iddynt allu cynnig bwydlen cwbl wahanol. Defnyddiodd Ffresh gogydd du cymwysedig, mawr ei glod, i weithi gyda'u prif gogydd i greu bwydlen addas a chytuno ar gyflenwyr (gan gynnwys cyflenwyr Halal). Cyflwynwyd eu bwydlen, ynghyd â thameidiau i'w blasu, i bwyllgor llywio Mis Hanes Pobl Dduon er mwyn cael sêl bendith. Roedd hyn o gymorth hefyd am y gallai'r gallai'r pwyllgor llywio, ar y diwrnod, dystio o blaid y bwyd. Ar y diwrnod, daeth Ffresh â samplau bach allan i'r cyntedd i bawb gael blas.

Y canlyniadau oedd:

- Cafwyd sylw yn y wasg, a chafwyd llawer o gyhoeddusrwydd rhagorol am ddim i Fis Hanes Pobl Dduon a Ffresh
- Ar y diwrnod, arhosodd pobl yn y ganolfan
- Ystyriai'r bobl yn y gymuned leol fod Canolfan Mileniwm Cymru yn fwy croesawgar ac ymatebol i'w hanghenion
- Derbyniodd Ffresh deirgwaith eu trosiant arferol!

Mae **Venue Cymru** yn cynnal deuddydd o weithdy Celf a Llenyddiaeth i bobl ifanc ym mis Ionawr, a daeth 8000 o bobl i'r digwyddiad yn 2014. Mae mynediad am ddim gan mai'r amcan yw gwaredu'r rhwystrau sydd i brofi'r celfyddydau. Caiff bocsys bwyd eu gwerthu i blant yn ddielw a chaiff sawl man ei neilltuo i unrhyw rai sydd eisiau dod a'u brechdanau eu hunain i'w plant.

Mae'n bwysig meddwl am hygyrchedd o safbwynt pryd yr ydych yn dechrau cynllunio a chreu eich gwaith. Ni ddylai fod yn rhywbeth yr ydych yn ei ystyried wedi i'r gwaith gael ei orffen yn unig ac wrth ichi fynd ati i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad. Nid yw byth yn dderbyniol ystyried hyn yn elfen ychwanegol.

Gall fod o gymorth meddwl am yr agweddau canlynol:

**Hygyrchedd** – Sut bydd y lle ble caiff y gwaith celf ei ddangos neu ei berfformio yn cael ei ddefnyddio? Sut bydd pobl yn symud o gwmpas y lle er mwyn iddynt allu gweld y gwaith?

**Synhwyrau** – Efallai y bydd llawer o bobl yn methu â gwerthfawrogi eich gwaith yn weledol ond gallant brofi eich creadigrwydd drwy gyffwrdd. Sut ydych yn teimlo am bobl yn cyffwrdd â'ch gwaith? A oes ffordd y gellid cyflawni hyn? Os oes perfformiad, sut a phryd gall disgrifiad sain/isdeitlau/uwchdeitlau a dulliau eraill fod o gymorth o ran hygyrchedd?

**Dysgu a gwybyddol** – Mae llawer o bobl yn cael trafferth wrth ddod o hyd i'w ffordd mewn adeiladau cymhleth a darllen arwyddion sydd â llawer o destun arnynt. Ystyriwch pa mor hawdd ydyw i fynd i ble'r ydych eisiau mynd mewn adeilad anghyfarwydd. Ystyriwch faint ffont a lliw ysgrifen, lluniau ac arwyddion cyffyrddol.

Mae'n werth nodi bod Cyngor Celfyddydau Cymru bellach yn disgwyl, fel amod grant, bod yn rhaid i bob ymgeisydd sy'n creu gwaith i'w berfformio neu i fynd ag ef ar daith sicrhau fod o leiaf un perfformiad yn hygyrch (sain-ddisgrifiad neu Iaith Arwyddion Prydain, er enghraifft). Yn achos arddangosfeydd, gallai hyn gynnwys arwyddion cyffyrddol, arweiniad sain-ddisgrifiad i'r arddangosfa ac ati. Mae hyn i'w ddisgwyl waeth beth yw'r gelfyddyd, ac mae hefyd yn cynnwys gwaith sydd i'w weld mewn un lle dros gyfnod o amser (er enghraifft mewn arddangosfeydd celf gweledol neu ddarnau drama safle-benodol).

Mae canllaw *Gofodau Cyfartal*, a gyhoeddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac a ysgrifennwyd gan Maggie Hampton o Gelfyddydau Anabledd Cymru, yn rhoi manylion pellach defnyddiol iawn ar sicrhau bod y celfyddydau yn hygyrch i bobl anabl yn gorfforol ac o ran amgylchedd.

Ond nid anabledd yn unig sy'n rhwystro pobl rhag cael mynediad i waith celf.

Fel y gwelwch o'r enghreifftiau, mae hefyd yn rhaid i sefydliadau ystyried cyfyngiadau ariannol ac anghenion diwylliannol a chrefyddol, a llunio strategaethau i ymdrin â'r rhain. Defnyddiol yw cael dealltwriaeth o beth yw eich cymuned o ran amrywiaeth, ac wedyn ystyried pam fod rhai o'r bobl hyn ddim yn mynychu.

Mae'n bwysig bod gennych bobl yn eich sefydliad neu leoliad sydd â'r wybodaeth dechnegol angenrheidiol. Er enghraifft, efallai bod gennych system dolen sain, ond mae rhaid cael rhywun i'w chynnal. A rhaid i staff blaen y tŷ allu dweud wrth ymwelwyr sut i gysylltu â'r system, ac os yw rhannau o'r lleoliad y tu allan i gyrraedd y ddolen.

Mater arall yw'r angen i ragweld a chynllunio ar gyfer anghenion pobl, yn enwedig os ydych yn defnyddio lleoliad gwahanol neu anarferol. Er enghraifft, bu i ŵyl dderbyn galwad ffôn gan unigolyn anabl yn ffonio i archebu lle i barcio (parc oedd y lleoliad felly nid oedd yno lefydd parcio i bobl anabl fel arfer). Bu i drefnwyr yr ŵyl gadw lle parcio i'r unigolyn, ond symudodd rhywun y conau a oedd wedi eu gosod yno. Ni allai'r unigolyn anabl barcio ac felly ni allai ddod i'r ŵyl.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Beth sy'n rhwystro pobl rhag dod i weld eich gwaith celf?
  - Hygyrchedd corfforol
  - Adeiladau anhygyrch
  - Rhwystrau yn ymwneud â chyfathrebu
  - Trafnidiaeth
  - Arall

- Os oes agwedd o'ch gwaith nad yw fel arfer yn hygyrch i rai grwpiau, pa newidiadau allech eu gwneud fel bod o leiaf un perfformiad yn hygyrch?

- A oes gennych unrhyw gynlluniau i symud adeilad neu adnewyddu cyfleuster presennol? Os felly, sut gallwch sicrhau bod eich adeilad newydd yn haws i bobl eu cyrraedd?

- Pa gyllid gallwch ei gael i wella hygyrchedd eich adeilad?

- A yw eich stiwdio/theatr/oriel mewn ardal lle bydd eich cwsmeriaid yn teimlo'n ddiogel (yn enwedig gyda'r nos)?

- Sut gallwch ddangos eich bod yn croesawu pawb?

- Sut y gwnewch chi roi gwybod i gynulleidfaoedd posibl a gwir gynulleidfaoedd beth rydych wedi ei wneud i ddiwallu eu hanghenion hygyrchedd?

- Os yw eich gwaith yn waith safle-benodol, a ydych wedi ystyried sut y gwnaiff pobl anabl fynd i'r digwyddiad?



## Monitro pwy sy'n ymgysylltu â'ch gwaith

Yn ôl ein hymchwil, dyma faes yr oedd llawer o bobl yn ei gael yn anodd.

Sut ydych yn holi pobl sy'n archebu tocynnau neu sy'n mynd i ddigwyddiad celfyddydol am eu hil, hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd, ymysg pethau eraill? Gall llawer o bobl weld y cwestiynau o'r fath yn fusneslyd (yn cynnwys y bobl sy'n holi'r cwestiynau, weithiau). Eto, teimlai rhai a ymatebodd i'n hymchwil nad oedd yn briodol dyfalu, yn rhannol am na ellir dyfalu rhai nodweddion beth bynnag.

Ond mae arferion Gŵyl Iris, isod, yn dangos ei bod yn bosibl, er y gallai fod angen ail-fframio'r ymdriniaeth a'i galw'n Ymchwil Farchnata yn hytrach na monitro cyfleoedd cyfartal.

Mae'n hanfodol bod y bobl sy'n holi'r cwestiynau, a'r rhai sy'n eu hateb, yn gwybod yn glir pam y gofynnir am y wybodaeth, ac y caiff y wybodaeth ei thrin yn gyfrinachol.

### Gŵyl Gwobr IRIS

Mae Iris yn defnyddio cwmni annibynnol i gynnal ymchwil i'r farchnad, sy'n cynnwys monitro. Mae arolwg Iris yn cynnwys data ar amrywiaeth, gan cynnwys oedran, hil, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, yn ogystal ag ymchwil i'r farchnad fel incwm, gwyliau a gwariant.

Ar y cychwyn, bu Iris yn trafod gyda'r cwmni a oedd yn cynnal yr ymchwil ynglŷn â natur gyfeillgar Iris. Fe ofynnont y dylid ei gwneud yn glir bod yr ŵyl yn hynod o ddiolchgar i bobl am roi o'u hamser i ateb y cwestiynau, ac os nad oeddent eisiau ateb rhai cwestiynau, roedd hynny'n iawn. Ond yn gyffredinol atebwyd 99% o'r cwestiynau.

Mae'r cwmni hefyd yn cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb â rhai cyfranogwyr. Mae gan y rhai sy'n gwneud y gwaith hwn y ddawn o adnabod pobl sy'n cyrraedd yn gynnar i'r ffilmiau ac sydd ar eu pen eu hunain, neu'n aros am ffrindiau. Byddant yn eistedd gyda nhw ac yn siarad drwy'r holiadur.

Mae Iris yn ystyried y data a gesglir o ddifri, gan eu defnyddio i:

- Gadw cyllidwyr yn hapus
- Dylanwadu ar eu marchnata
- Dylanwadu ar gynnwys yr ŵyl
- Mesur beth mae'r gynulleidfa yn ei feddwl

*"Rhan o lwyddiant Iris yw mynediad i'r wybodaeth am ein cynulleidfa drwy ein harolygon. Gwyddwn fod mwy o ddynion, fel arfer yn Gawcasaidd, ond mae hefyd gennym bobl o gymunedau du ac Asiaidd yn dod i'r Ŵyl. Gyda rhywfaint o lwyddiant, rydym yn araf bach yn gweld gwell cydbwysedd o ran y ddau ryw yn yr Ŵyl, a dylanwadwyd ar hynny gan gamau a gymerwyd yn sgil y gwaith ymchwil."*

Mae'n bwysig bod cyswllt cadarnhaol rhwng yr unigolyn sy'n gwneud yr ymchwil i'r farchnad a'r aelod o'r gynulleidfa. Mae'n rhaid i'r ymchwilydd fod yn gyfeillgar ac yn barchus bob amser.

Mae Iris hefyd yn cyhoeddi yn ystod yr ŵyl bod y gwaith ymchwil i'r farchnad yn cael ei gynnal. Maent yn pwysleisio'r angen i'w wneud ac egluro sut mae'n helpu gyda chyllidwyr a noddwyr arfaethedig. Maent yn egluro nad ymarfer ticio blychau'n unig ydyw.

Maent yn casglu rhyw 110 i 130 o ffurflenni. Mae'r arolwg hefyd i'w gweld ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Maent yn amcangyfrif fod oddeutu 70% o'u harolygon yn rhai ar bapur a lenwyd yn ystod yr ŵyl neu'n syth wedyn. Un flwyddyn, dyma nhw'n ceisio cynnig gwobr i bobl am gwblhau'r arolwg, ond ni chafodd hyn unrhyw effaith ar nifer yr arolygon a gwblhawyd.

Caiff yr un fformiwla ei defnyddio bob blwyddyn fel y gallant gymharu o flwyddyn i flwyddyn. Yr un fu'r cwestiynau ers dechrau'r ŵyl, felly mae'r tueddiadau yn cynnig gwybodaeth real a phwysig.

O ran casglu data gan y gynulleidfa, dywedodd Iris, *"Yn y gorffennol nid oedd neb yn gwneud y cysylltiad, yn ei gefnogi nac yn gwybod sut i'w wneud. Nawr rydym yn cydnabod ei bwysigrwydd ac mae'n allweddol y caiff ei gasglu'n annibynnol a'n bod yn talu amdano. Rydyn ni'n ei ddefnyddio! Mae'n golygu dangos parch i'n cynulleidfa".*

## Taliesin

Mae Taliesin, fel y mae'r rhan fwyaf o leoliad sydd â digwyddiadau drwy docynnau, yn gallu casglu llawer o wybodaeth drwy eu system swyddfa docynnau e.e. enw, lleoliad, oedran ac ati. Maent yn defnyddio system TicketSolve i gasglu'r data hwn.

## Dynamix

Mae Dynamix, cwmni partner Circus Eruption, wedi creu gwefan yn arbennig ar gyfer cynghori sefydliadau ar sut i gasglu data a monitro: http://outcomesguide.com/

Dyma beth a ddysgwn o'r enghreifftiau hyn:

Mae'n bwysig bod yn glir iawn ynglŷn â phwrpas eich gwaith monitro a sut y defnyddir y data. Dylai gwaith fel hyn o gasglu data fod yn ddienw a chyfrinachol.

Os nad ydych am wneud unrhyw beth â'r wybodaeth, does dim pwynt casglu'r data.
Mae pobl sydd yn llenwi holiaduron hefyd angen gwybod eich bod yn gofyn y cwestiynau er mwyn gwella eu profiad (ac y bydd y wybodaeth yn ddienw a chyfrinachol).

Bydd casglu'r data yn gweithio'n llawer gwell os yw'r bobl sy'n cynnal arolygon neu holiaduron y gynulleidfa wedi'u hyfforddi'n iawn, a'u bod nhw eu hunain yn gyfforddus gyda'r cwestiynau y maent yn eu gofyn.

Mae'n bwysig cynnwys opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud' mewn unrhyw holiadur i barchu dewis pobl i beidio ag ateb, ac opsiwn 'arall' i barchu dewis pobl i hunan-ddiffinio mewn ffordd arall.

Mae gan Stonewall Cymru ganllaw dwyieithog i bobl yn cynnig cyngor ar y rhesymau i gwblhau holiaduron monitro. Enw'r canllaw yw "What's it got to do with you? Ten reasons why you should fill in those funny boxes at the end of forms". Ei fwriad yw helpu'r cyhoedd i ddeall pam y gofynnir iddynt am eu data personol. Gallwch ganfod mwy fan hyn: http://www.stonewall.org.uk/at_home/3460.asp

Mae'n bwysig bod eich staff, eich gwirfoddolwyr ac yn wir unrhyw un sy'n casglu data monitro, yn ymwybodol pam ei bod yn bwysig, a'u bod wedi'u hyfforddi'n iawn ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Sut gall gwybod mwy am eich cynulleidfa eich helpu i wella beth rydych yn gwneud?
- Pa wybodaeth fyddai o gymorth ichi wybod am eich cynulleidfa, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol ac ati?
- Pa fath a pha lefel o ddata monitro fydd angen ichi roi i gyllidwyr, noddwyr a phartneriaid er mwyn cadw'r rhai presennol a denu cyllid newydd?
- Sut y gwnewch chi ddefnyddio'r data'r ydych yn ei gasglu?
- Sut y gwnewch chi fynegi wrth bobl bod y data yn ddienw ac yn gyfrinachol?
- Sut y gwnewch chi egluro wrth gyfranogwyr bod monitro yn ymwneud â gwella, nid i'w gosod yn eu blychau?
- Pa gyfryngau a ddefnyddiwch i gasglu'r data?
- Pa gyfleoedd allai fod i gasglu data wyneb yn wyneb?
- Pwy yw'r unigolyn gorau / y bobl orau i gasglu'r data? Sut cânt eu hyfforddi a'u cefnogi?
- Sut gallwch chi gyfathrebu eich bod wedi gwneud newidiadau o ganlyniad i gasglu'r data hwn?



Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Cymryd rhan yn y celfyddydau

Os yw cyfranogi yn rhan bwysig o'ch gweithgarwch celfyddydol – ac i'r mwyafrif o sefydliadau y mae – mae'n hanfodol eich bod yn ceisio sicrhau bod y cyfleoedd rydych yn eu darparu yn agored i bobl o ystod eang o gefndiroedd amrywiol. Bydd llawer o'r materion a godwyd mewn adrannau eraill o'r canllaw hwn yn berthnasol yn hyn o beth. Dylech feddwl am sut i gysylltu gyda'r grwpiau'r ydych yn ceisio eu cyrraedd, y math o weithgaredd a allai fod o ddiddordeb iddynt, a ph'un a yw'r lleoliad yn addas i'r gweithgaredd dan sylw.

### Enghreifftiau o arferion da

Mae gan **Oriel Gelf Glynn Vivian** grŵp gweithdy ar brynhawniau Mercher i bobl dros 55 oed. Diben hyn yw datblygu grŵp cymunedol i bobl dros 55 oed sydd wedi'u hynysu. Dechreuodd 4 blynedd yn ôl gydag un gweithdy mosaigau a 10 o aelodau, drwy brosiect gydag Engage Cymru. Mae bellach gan y grŵp gyrsiau 8 wythnos sy'n rhedeg drwy'r flwyddyn gan gwmpasu ystod eang o ddisgyblaethau artistig ac mae ganddynt fwy na 75 o aelodau. Mae'r prosiect hwn yn wahanol i lawer o weithdai celf gan nad yw'n canolbwyntio'n unig ar ddysgu sgiliau creadigol newydd, ond hefyd ar greu cymuned i bobl sydd wedi'u hynysu.

Ym mis Medi 2013, cyflwynodd Oriel Gelf Glynn Vivian arddangosfa oddi ar y safle: Gawn ni weld.... Roedd hwn yn benllanw cyfnewidfa artistig a barhaodd am bedair blynedd rhwng Cymru a Tsieina, a gefnogwyd gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r British Council. Daeth y prosiect â 7 o artist (4 o Gymru a 3 o Tsieina) ynghyd i sgwrsio am eu gwaith, rhannu dulliau artistig a chyfnewid syniadau. I gyd-fynd â'r arddangosfa, cyflwynodd yr Oriel gyfres o weithgareddau a gweithdai i gyflwyno technegau artistiaid Tsieineaidd traddodiadol. Roedd Artist Preswyl yr oriel, Huw Andrews, wedi gorffen addysgu Saesneg yn Tsieina yn ddiweddar a gweithiodd gyda Chydweithfa Tsieineaidd Abertawe i gyflwyno gweithdai yn seiliedig ar deithiau Richard Glynn Vivian i Tsieina a Griffith John. Roedd gwahanol grwpiau cymunedol, gan gynnwys y grŵp dros 55 oed, yn cymryd rhan mewn gweithdai megis gwneud cwpanau te gyda'r artist Owen Griffiths a chartref Swan Gardens i'r gymuned Tsieineaidd oedrannus yn Abertawe, a chyrsiau diwrnod i ddysgu Mandarin i'n grŵp dros 55 oed. Cyflwynodd artist o Tsieina Yingmei Duan, gyfres o weithdai perfformio gyda grŵp cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe a'n grŵp i bobl ifanc, Black Kettle Collective. Cafodd Gawn ni weld... ei arddangos mewn amryw leoliadau oddi ar y safle er mwyn rhoi cymaint o sylw â phosibl iddo yn y gymuned leol. Roedd y lleoliadau'n cynnwys lle gwag yng nghanol y dref a Marchnad Abertawe. Bu gwirfoddolwyr o holl bartneriaid cymunedol Glynn Vivian yn cymryd rhan fel bod ystod amrywiol o wirfoddolwyr yn cymryd rhan.

Fel rhan o'u hymdrechion i greu perfformiadau theatraidd mewn llefydd ar wahân i theatr, neu leoedd a ddychmygwyd o'r newydd, cynhaliodd **National Theatr Wales** berfformiad o Tonypandemonium yn adeilad Theatr Parc a Dâr a hwnnw wedi ei drawsffurfio. Roedd ardal y seddau wedi'i chodi i'r un lefel â'r llwyfan ac eisteddai aelodau'r cast ymysg y gynulleidfa.



*Let's See What Happens*, Maleonn, Stwdio Symudol, Oriel Mission (llun: Eva Bartussek)

Mae **Dawns i Bawb** yn cynnal grŵp yn benodol i bobl sydd â chlefyd Parkinson. Mae'r grŵp hwn yn weithgar ac chafodd ymarferwyr dawns eu hyfforddi i weithio gyda grwpiau penodol. Caiff y cyfranogwyr a'r staff ddysgu technegau y gallant eu defnyddio y tu allan i'r sesiynau dawns, fel ymarferion bach syml a all helpu gydag arthritis a phoen cymalog. Maent yn hybu manteision dawnsio wrth gadw'n heini a rheoli cyflyrau iechyd drwy grwpiau fel hyn.

Bob haf, mae **Taliesin** yn cynnal Prosiect Dawns Cynradd i rai dan 19 oed. Mae coreograffydd dawns llawrydd yn gweithio gydag ysgolion cynradd yn nwyrain Abertawe fel rhan o brosiect Cymunedau yn Gyntaf. Caiff plant ysgolion cynradd eu gwahodd i gymryd rhan mewn dosbarthiadau dawns a chreu gwaith celf am bwnc penodol bob blwyddyn (mae pynciau blaenorol yn cynnwys teithio a'r haf). Caiff y prosiect ei gynnal mewn cydweithrediad ag adran celfyddydau perfformio Coleg Gŵyr. Mae myfyrwyr y coleg yn defnyddio'r prosiect hwn yn gyfle i gael profiad ymarferol o addysgu a choreograffi. Mae'r **stiwdio/ysgol ddawns Cydweithfa Ddawns Gymunedol** hefyd yn gweithio i helpu i ddatblygu'r prosiect gyda'r plant. Caiff y dawnsio ei drefnu'n broffesiynol a'r nod yw adeiladu hyder y plant a rhoi mwy o brofiad addysgu i fyfyrwyr y coleg.

Caiff y prosiect cyfan ei ddatblygu drwy'r ysgolion ac ar ddiwedd y prosiect mae'r plant yn perfformio eu dawns, a chaiff gwaith celf y plant ei daflunio yn gefndir drwy gydol y perfformiad cyfan.

Roedd gan Gwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani brosiect o'r enw SHINE: Exploring the power and influence of Romani visual culture. Roedd SHINE yn arddangosfa hynod lwyddiannus a chyfunai'n dda iawn â holl brosiectau eraill Mis Hanes 2013 ar thema 'Cartref'. Mae ffocws y Romani ar gyfathrebu'n weledol yn hytrach na'n llenyddol wedi arwain at integreiddio arferion artistig ym mywyd bob dydd. Datblygwyd prosiect SHINE gyda'r artist Dr Daniel Baker. Cafodd y gwaith ei ddangos i gychwyn yng Nghasnewydd gyda siaradwyr gwâdd gan gynnwys Thomas Acton OBE, Athro Emeritws Astudiaethau Romani ym Mhrifysgol Greenwich; a Rosemary Butler AC. Cafodd llwyddiant yr arddangosfa hon a'i dylanwad ar y cyhoedd yn gyffredinol ei nodi gan Lywodraeth Cymru, gyda'r arddangosfa i'w gweld yn y Senedd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2013. Mae hyn yn benodol o bwysig gan fod Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn yn trafod newid polisi ynglŷn â hawliau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Dywedodd Rosemary Butler AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, "Bydd arddangosfa SHINE, ynghyd â'r gweithgareddau eraill sy'n nodi Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn caniatáu inni gydnabod a gwerthfawrogi diwylliant a dylanwad artistig Romani ar draws y gymdeithas ehangach."

Yn 2005, gweithiodd Opera Cenedlaethol Cymru gyda phedair ysgol gynradd ar stad Gurnos ym Merthyr Tudful. Gweithiodd y plant gydag awdur a chyfansoddwr gan fwydo eu syniadau, a drowyd wedyn yn libreto gyda cherddoriaeth. Cafodd y darn ei berfformio mewn gwahanol leoliadau cyhoeddus gan gynnwys ysgolion lleol eraill. Gwnaeth un person ifanc – gofalydd ifanc – gysylltiad personol gyda'r darn ac erbyn hyn yn gweithio ym maes opera ieuenctid.


Bu artist ar leoliad gwaith yn gweithio gyda disgybl 16 oed ar leoliad gwaith a oedd yn ddall a chanddi rai anawsterau motor. Roedd hi hefyd o'r gymuned Somali. Teimlai ei rhieni a'r ysgol ei bod yn meddu ar sgiliau artistig. Dros gyfnod o dri mis bu'r artist yn gweithio gyda'r disgybl ar wahanol brosiectau gan ei hebrwng wrth ymweld ag orielau ac arddangosfeydd. Roedd hyn yn cynnwys golwg breifat ar arddangosfa yn Amgueddfa Caerdydd a alluogai'r disgybl i archwilio celfweithiau drwy gyffwrdd â hwy ac wedyn gweithio mewn clai i ymateb i'w phrofiadau. Agorwyd y cabinetau er mwyn i'r fyfyrwraig gael teimlo gwead gweithiau amryw artistiaid cerameg. Bu wedyn yn gweithio â chlai i geisio ail-greu'r hyn oedd wedi ei deimlo. Bu'r artist hefyd yn casglu deunyddiau naturiol (dail, pren ac ati...) i wneud sesiynau yn fwy cyffyrddol.

Mae Mess Up The Mess yn gwneud llawer o waith gyda phobl ifanc sy'n cael addysg gartref a phobl ifanc mewn gofal. Mae hyn oherwydd eu bod wedi datblygu rhwydweithiau cryf iawn gyda gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol. Caiff pobl eu cyfeirio ar lafar bellach drwy'r rhwydweithiau hyn, gan fod eu gweithdai yn adnabyddus fel llefydd lle gall y bobl ifanc hyn wneud cyfeillgarwch parhaus tra'n gwneud rhywbeth maent yn ei fwynhau.

Mae Mess Up The Mess wedi cynnal gwobrau'r Plant sy'n Derbyn Gofal yn Abertawe gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, gydag ymdriniaeth lawn yr Osgars gan gynnwys carped coch ac yn y blaen mewn partneriaeth ag adran y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r digwyddiad hwn yn dangos y gall y plant hyn gyflawni pethau gwych, ac mae'n gymorth i ddatblygu hyder yn y rhwydwaith ehangach o blant mewn gofal sy'n eu cael hi'n annodd i gymryd rhan.

Prosiect a bontiai'r cenedlaethau oedd A Queer Christmas (i bobl bob oed o 16 i fyny), a drefnwyd gan Mess Up The Mess i ddathlu cymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol Abertawe dros y blynyddoedd. Roedd yn ddigwyddiad poblogaidd iawn a hynny oherwydd yr ymdrech a wnaed i greu cynllun marchnata hynod greadigol a gynhwysodd drefnu sled barti o Gaerdydd i gael pobl allan i'r perfformiadau yn Abertawe.

*A Queer Christmas,* Mess Up The Mess. Ysgrifennwyd gan Bethan Marlow



Mae enghreifftiau eraill o waith Mess Up The Mess yn cynnwys côr cymunedol cyfeillgar i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol o bob gallu lleisiol a ddeilliodd o A Queer Christmas (o'r enw Tutti Frutti). Hefyd bu iddynt gefnogi pobl ifanc drwy ysgrifennu darnau penodol iddynt hwy; cefnogi lleoliadau gwaith; talu am fysiau i bobl ifanc gymryd rhan neu fynd i gyfweliadau mewn colegau; sefydlu cyfarfodydd i bobl ifanc gyda chydlynwyr cyrsiau'r celfyddydau a busnesau y maent eisiau gweithio iddynt a chefnogi eu datblygiad unigol fel artistiaid mewn unrhyw ffordd bosibl. Mae'r Cwmni'n gweithio'n galed i gadw cysylltiadau a pherthynas gydag unigolion a grwpiau lleol ac annog perthnasau cadarnhaol rhyngddynt. A cheisiant gyfeirio pobl at grwpiau lleol os ydynt yn byw'n rhy bell o brosiectau rheolaidd a lle na all Mess Up The Mess dalu am drafnidiaeth neu gyswllt cyson. Maent wedyn yn gwahodd y bobl ifanc hyn a'u cynorthwyo i ddod i bob digwyddiad preswyl a gynhelir ganddynt.

Sioe oedd Click a gynhwysai nifer o wahanol gymeriadau ar ymylon cymdeithas, a ysgrifennwyd gan Dafydd James, yn dilyn rhaglen ddwys hir dymor o weithdai gydag ystod o gymunedau o bobl ifanc ar draws y byd sydd ar ymylon cymdeithas. Cydweithiodd pobl ifanc ar sialensau creadigol a ysbrydolodd y sioe ac aeth nifer yn eu blaen i berfformio'n y sioe terfynol. Cafodd Mess Up The Mess gryn drafferth i gastio prif gymeriad o gefndir Tsieineaidd wedi'i seilio ar berson ifanc yn gweithio ar y prosiect o Kong Hong ond llwyddasant i estyn allan i fenywod ifanc Tseineaidd heb fawr o brofiad celfyddydol drwy bartneriaeth wych gyda Chymdeithas y Gymuned Tsieineaidd yn Abertawe.

Cynhaliodd Mess Up The Mess yn ogystal sgriniad ychwanegol yn yr ŵyl ffilmiau ar ddydd Sadwrn i nifer fach o bobl ifanc nad oeddynt yn gallu dod ar ddydd Gwener am resymau academaidd. Roedd y gwragedd Mwslimaidd ifainc wedi gweithio ar brosiect byr, ond roedd gweld eu ffilm yn cael eu cyflwyno yn ehangu'u gorwelion.

Mae Mess Up The Mess yn gweithio'n rheolaidd gyda Dafydd James a ysgrifennodd Llwyth. Mae'n creu llawer o gymeriadau hoyw, sy'n digwydd bod yn hoyw, yn hytrach na'i fod yn bwnc neu ran annatod o'r stori. Nid yw artistiaid proffesiynol sy'n gweithio gyda Mess Up The Mess, fel Dafydd a Bethan (a ysgrifennodd Queer Christmas), yn codi eu trwynau ar waith cymunedol, ond cânt lawer o syniadau wrth weithio gyda chyfranogwyr amrywiol a thrwy beidio â chynhyrchu o reidrwydd theatr ar sail pwnc, ond darnau sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd amrywiol. Mae cynulleidfa Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac amrywiol sy'n barhaus i waith Mess Up The Mess a bu'r rhan fwyaf o'r rhieni'n gadarnhaol ynglŷn â chynnwys cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r cwmni wedi darganfod, er bod llawer o sefydliadau ieuenctid fod ag ofn mynd i'r afael â materion cyfeiriadedd rhywiol, y gwirionedd yw bod teuluoedd yn aml yn gefnogol.

## Bod yn rhan o wneud penderfyniadau yn gyffredinol

Mae Circus Eruption eisiau i bobl ifanc fod â pherchnogaeth o'r grŵp. Maent eisiau i bobl ifanc deimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed a bod eu barn yn cyfrif. Does dim penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y staff a'r gwirfoddolwyr heb eu bod yn ymgynghori â'r bobl ifanc. Maent yn casglu gwybodaeth a barn gan y bobl ifanc drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mae hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ymgynghori hygyrch (gweithgareddau trafod) gydag unigolion a grwpiau bach a mawr. Mae ymgynghoriadau'n digwydd ar ffurf gemau, symud o gwmpas, ysgrifennu, trafodaethau grŵp a thasgau. Cesglir syniadau oddi wrth y bobl ifainc drwy'r cyfryngau cymdeithasol, blychau syniadau (lle gall y bobl ifanc gyflwyno syniadau'n ddi-enw) neu gallant siarad gyda staff neu wirfoddolwyr yn uniongyrchol. Gall pobl ifanc rannu eu meddyliau gan roi adborth distaw drwy ysgrifennu eu hawgrymiadau neu roi nodiadau post-it ar boster awgrymiadau neu mewn blwch awgrymiadau.

Mae'r enghreifftiau'r ydym wedi eu rhannu uchod yn rhoi blas o'r math o weithgarwch y gellir ei gynnig i grwpiau o gefndiroedd amrywiol. Cafodd llawer o'r gwaith a glywsom amdano ei dargedu at grwpiau penodol, ac mae hyn yn sicr yn rhywbeth y dylech ystyried.

Mae llawer o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynychu digwyddiadau yn y celfyddydau yr un fath i'r grwpiau hynny pan maent yn cymryd rhan. Gall y gost o fynd yno, rhwystrau corfforol a synhwyraidd, amseriadau a lleoliad fod yn broblemau. Mae ar ba ddiwrnod o'r wythnos y caiff y gweithgaredd ei gynnal hefyd yn ystyriaeth i rai grwpiau o gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol penodol. Ac efallai nad yw'n briodol, er enghraifft, i grŵp o ferched Mwslimaidd gymryd rhan yn yr un gweithgaredd â grŵp o ddynion.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- A yw ehangu cyfranogiad yn flaenoriaeth i'ch gwaith?
- A oes grwpiau yn eich ardal y teimlwch y byddai ganddynt ddiddordeb cymryd rhan yn eich gweithgareddau, ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd?
- Sut y buasech yn cysylltu â'r grwpiau hyn?
- Pwy hoffech eu hannog i ymwneud â'ch gwaith?
- Beth fyddai angen ichi wneud yn wahanol i'w perswadio i ddod?
- Sut gallwch fanteisio ar gysylltiadau sydd gennych yn barod â gwahanol gymunedau yn eich ardal i'w hannog i gymryd rhan?
- A allai prosiect i gynnwys gwahanol grwpiau yn y celfyddydau fod yn ffynhonnell o gyllid newydd i chi?

## Cyllid

Gall gweithio mewn partneriaethau â gwahanol gymunedau weithiau agor y drws i sylfaen mwy amrywiol o gyllid i'ch gwaith. Byddai ehangu a chynyddu eich cynulleidfa a'ch cyfranogwyr yn cael effaith gadarnhaol beth bynnag, ac mae'n beth da i'w wneud. Ond efallai y gallech ddod o hyd i ffynonellau newydd o gyllid drwy'r partneriaethau cymunedol y byddwch yn eu datblygu.

Mae **MOSTYN** ar hyn o bryd yn gweithio gyda Hafal, sefydliad gwirfoddol sy'n cynorthwyo oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol. Gan adeiladu ar gyfres o weithdai blasu yn yr orielau a'r stiwdio, gwnaeth Hafal gais llwyddiannus i'r awdurdod lleol am grant bach i gynnal prosiect peilot dan arweiniad artist rhwng Chwefror a dechrau Ebrill 2014. Mae'r bartneriaeth yn gydweithrediad rhwng Hafal, MOSTYN, yr RCA a Gwasanaeth Datblygu Celfyddydau Cyngor Sir Conwy.

Mae **Cerdd Gymunedol Cymru** yn derbyn cyllid graidd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, sy'n cyllido eu bodolaeth ac 20% o'u hincwm. Mae 10% pellach o'u hincwm yn dod gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer prosiectau hyfforddi neu gyfranogol.

Mae hyn yn caniatáu iddynt ddenu llawer o gyllid gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliad Esmee Fairbairn; Garfield Weston, Plant mewn Angen; Comisiynydd y Gymraeg; Cyllid Ewropeaidd ac ati.

Maent hefyd yn derbyn rhywfaint o refeniw wrth i grwpiau eraill brynu eu gwasanaethau i gynnal prosiectau, er enghraifft ysgolion a grwpiau anabl, sydd ryw 15% o'u hincwm.

Ym mhob cais, maent yn dadlau'r achos am gyllid i weithgarwch celfyddydol drwy ganlyniadau fel adeiladu hyder, cydlyniant cymunedol, datblygu balchder lleol ac ati, gyda'r celfyddydau yn gyfrwng da i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Mae Cyfarwyddwr Materion Allanol a Chyfathrebu LNG – y cwmni nwy lleol – yn aelod o fwrdd **Torch**. Mae LNG wedi rhoi grant i Torch i gynnal gweithdai gyda phobl ifanc i wella eu cyflwyniad personol mewn cyfweliadau. Gwêl y cwmni hyn fel rhan o'u cyfraniad i'r gymuned, ac y mae hefyd yn eu helpu i recriwtio gweithwyr lleol.

Bu Mess Up The Mess yn llwyddiannus iawn wrth ddenu cyllid allanol. Er enghraifft, derbyniwyd arian o ddwy raglen y Gronfa Loteri Fawr a chafwyd cyllid gan Blant mewn Angen y BBC i weithio gyda phobl ifanc dan anfantais. Cawsant grant cyfalaf hefyd o gronfa fferm wynt ac wedyn grant a chefnogaeth oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin i ddefnyddio'r adnoddau cyfalaf hyn.

Ond y mae hyn y golygu eu bod yn treulio gormod o amser ar geisiadau grant ac mae anhawster yn y ffaith mai am flwyddyn neu ddwy yn unig y ceir cyllid gan y rhan fwyaf o gyllidwyr. Felly mae angen cytundebau cyllido mwy hirdymor.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyllido prosiectau y mae'n disgwyl y bydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog iddynt. Gall hyn fod drwy raglenni wedi'u targedu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd, neu drwy gefnogi gwaith unigolion a chwmnïau fel y gall pobl weld eu gwaith. Ceir canllawiau cyllido ar eu gwefan www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk neu, os yw'n well gennych, gallwch drefnu i siarad gyda rhywun am ba gymorth allai fod ar gael i'ch cynorthwyo chi neu eich gwaith.

Nid Cyngor Celfyddydau Cymru yn unig fydd â diddordeb i wybod beth rydych yn gwneud mewn perthynas â chydraddoldeb. Fe welwch fod y rhan fwyaf o gyllidwyr, os nad y cyfan ohonynt, yn gofyn am amrywiaeth eich bwrdd ymddiriedolwyr/staff/gwirfoddolwyr. Gallai fod gofyn ichi hefyd nodi sut bydd eich cais penodol am gyllid yn ymgysylltu â grwpiau penodol.



Llwyth, Simon Watts a Joshua Price, Theatr Genedlaethol Cymru (llun: Farrows Creative)

Weithiau mae Ymddiriedolaethau, Sefydliadau a chyllidwyr eraill eisiau ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb penodol, ac eisiau mynd i'r afael ag anfantais. Gall y celfyddydau fod yn ddull pwerus i wneud hyn. Gellir mynd i'r afael â themâu fel cydlyniant cymunedol, cyrhaeddiad addysgol is; diweithdra ac eraill drwy weithio yn y celfyddydau. Y man cychwyn yw meddwl am y gwaith a sut y gall pobl neu gymunedau elwa ohono. Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, edrychwch wedyn ar bwy sydd yn y sefyllfa orau i gyllido'r gwaith hwnnw.

Un o'r manteision o ymgysylltu â sefydliadau cymunedol yw y gallai fod yn bosibl ichi wneud cais ar y cyd â nhw na allech ei wneud fel arall. Pan fo hyn yn golygu nad fyddent hwythau chwaith yn gallu bwrw ymlaen heboch chi, gallai hyn fod yn sefyllfa lwyddiannus ddau sefydliad. Gallai hyn, er enghraifft, eich helpu i:

- Ddechrau ar brosiect penodol
- Gwella eich cyfleusterau ar gyfer grŵp penodol
- Ymchwilio i rwystrau ac ymgysylltu ar gyfer grŵp penodol
- Cynnal prosiect sy'n edrych ar themâu sy'n bwysig i grŵp penodol
- Cynnal prosiect sy'n cynnwys pobl o grŵp neu grwpiau nad ydynt fel arfer yn ymwneud â'r celfyddydau
- Datblygu cynulleidfaoedd newydd a chynorthwyo grwpiau o bobl i ddod i weld eich gwaith celf (gan gynnwys datblygu atebion i anawsterau teithio)
- Darparu offer i bobl o wahanol grwpiau

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Pa ffynonellau cyllido sydd ar gael na fuasech fel arfer yn gallu cael mynediad atynt?
- Beth yw'r strategaeth mwyaf addas – ymgeisio am gyllid mewn partneriaeth â sefydliad arall (nad yw'n ym maes y celfyddydau o bosibl), neu ymgeisio amdano eich hun?
- Os ymgeisiwch amdano eich hun, sut byddwch yn creu'r cysylltiadau â sefydliadau partner i sicrhau y gallwch gyflenwi'r prosiect?
- Sut gallech amrywio eich ffynonellau cyllido?

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys



Doniau Cudd, Canolfan Gerdd William Mathias

# Yn Eich Sefydliad

## Y bwrdd / pwyllgor rheoli

### Strategaeth a chynllunio

Mae'r holl enghreifftiau o arferion da ac awgrymiadau yn yr arweiniad hwn yn fwy tebygol o ddigwydd os yw eich sefydliad yn cymryd golwg strategol, ac yn ystyried y gwaith yn rhan o'i ddatblygiad a'i strategaeth sefydliadol arferol. Fel hyn, gall eich Bwrdd fod yn bwysig wrth wella eich arferion amrywiaeth.

Eich Bwrdd yw'r corff sy'n gosod cyfeiriad y sefydliad a felly bydd yn hanfodol wrth benderfynu p'un a yw amrywiaeth a chynhwysiant yn mynd i fod yn rhan ystyrlon o'r strategaeth honno ai peidio. Er mwyn i arferion amrywiaeth wella drwy eich sefydliad, mae'n hanfodol y ceir cefnogaeth o'r brig. Os nad yw'r Bwrdd yn cefnogi'r fath gyfeiriad, bydd gwelliannau yn debygol o fod yn dameidiog ac yn llawer llai effeithiol, os ceir unrhyw welliannau o gwbl.

Cofiwch, gall y Bwrdd ei hun fod yn un ffynhonnell o'ch amrywiaeth, yn un ffynhonnell o'ch cyswllt â gwahanol gymunedau, ac yn un ffynhonnell o arbenigedd ar sut i wneud pethau'n wahanol. Nid yn unig bod cael cynrychiolaeth amrywiol ar eich Bwrdd yn arwydd grymus o ethos ac ymrwymiad i gydraddoldeb, ond gall gynnig gwybodaeth ac arbenigedd hanfodol.

Mae bwrdd Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwylliannol De Cymru (SWICA) yn gryf yn nhermau amrywiaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae pump o'r chwe aelod o'r bwrdd o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Golyga hyn fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan greiddiol o wead sefydliadol SWICA, ac mae hynny'n effeithio ar bob agwedd ar waith y mudiad.

Haws dweud na gwneud. Felly sicrhewch fod eich bwrdd yn neilltuo amser, yn rheolaidd, i ystyried amrywiaeth fel rhan o'i drafodaethau arferol. Gallai hyn olygu ei gosod yn eitem sefydlog ar eich agenda. Neu gallai olygu y rhoddir ystyriaeth i oblygiadau amrywiaeth pryd bynnag y bydd unrhyw bolisi, prosiect neu fenter newydd yn cael eu hystyried, (yn yr un ffordd ag y byddai asesiad risg neu fater ariannol yn cael ei ystyried).

Weithiau bydd gan gyrff llywodraethol fanylebau/gofynion y person i rai rolau'r Bwrdd a allai olygu bod rhai'n cael eu heithrio. Ystyriwch a allai gofynion penodol achosi, yn anfwriadol, i rai grwpiau gael eu rhwystro rhag ymgeisio. Er enghraifft, a yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r nos bob tro, neu ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos? Ble'r ydych yn cynnal eich cyfarfodydd, ac a yw'r lle yn hygyrch?

Mae'n bwysig bod sefydliadau yn gwybod am sgiliau, gwybodaeth a phrofiad presennol aelodau'r Bwrdd. Gellir gwneud hyn, er enghraifft, drwy gynnal archwiliad syml o sgiliau holl aelodau'r Bwrdd. Ni yn unig y bydd hyn yn helpu ganfod arbenigedd, ond bydd hefyd hyn yn eich galluogi i ddatblygu cynllun hyfforddi a fydd yn datblygu gallu ac arbenigedd eich Bwrdd.

Hyd yn oed os bydd gan rai aelodau o'r bwrdd brofiad mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth, mae'n bwysig cynnal sesiynau hyfforddi rheolaidd i'r Bwrdd ar y materion hyn. Mae'r rhain yn faterion sydd yn berthnasol i holl aelodau'r Bwrdd, ac nid yn fater i'r 'arbenigwyr' ys dywedir.

Bydd llawer o sefydliadau yn cymryd camau gweithredol i gynorthwyo pobl o wahanol grwpiau i ymuno â byrddau a chyrff llywodraethu. Gallent eu cefnogi drwy brosesau ymgeisio a sefydlu drwy wneud pethau fel:

- Darparu mentoriaid iddynt sydd eisoes ar y corff llywodraethol
- Eu cael yn rhan o bethau mewn ffyrdd eraill er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r sefydliad a sut mae'n gweithredu cyn iddynt ymuno'n llawn â'r corff llywodraethol
- Cynnal diwrnodau hyfforddi i ymgeiswyr posibl cyn iddynt benderfynu ymuno neu beidio

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Pwy sydd yn rhan o'ch corff llywodraethol ar hyn o bryd? (Gallai hyn olygu gofyn iddynt gwblhau holiadur sy'n cynnwys yr holl feysydd sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd)
- Os nad yw eich Bwrdd eisoes yn amrywiol, sut gellwch chi ei hybu i fod yn fwy cynrychioliadol o ran amrywiaeth?
- Pa gysylltiadau sydd gennych â chymunedau?
- Pa gysylltiadau sydd gan bobl yn y sefydliad â phobl o gefndiroedd mwy amrywiol a allai fod â'r arbenigedd a'r sgiliau a fyddai'n helpu'r corff llywodraethol a'r sefydliad?
- Sut bydd angen ichi gynorthwyo pobl o amryw gefndiroedd a allai fod â sgiliau defnyddiol (er enghraifft yn y celfyddydau neu ym maes amrywiaeth ei hun) ond sydd heb rai sgiliau pwysig eraill (er enghraifft llywodraethu neu gyfrifon)
- Sut a ble'r ydych yn hysbysebu swyddi gwag? (Byddai llawer o'r pwyntiau a wneir yn yr adran am gyhoeddusrwydd a chyfathrebu ynghylch digwyddiadau celfyddydol yn berthnasol fan hyn hefyd.)
- Sut mae angen i'r Bwrdd newid i fod yn fwy deniadol i bobl o wahanol gefndiroedd? Er enghraifft, swydd-ddisgrifiad, manyleb y person, sut, pryd a ble y mae'n cynnal ei gyfarfodydd.
- Sut a phryd mae'r corff llywodraethol yn ystyried amrywiaeth yn y sefydliad?
- Sut mae angen i'r bwrdd newid i annog aelodaeth mwy amrywiol? Er enghraifft, a yw'r swydd-ddisgrifiadau neu fanylebau'r person yn eithrio pobl?
- Sut caiff strategaeth ei lunio yn eich sefydliad a sut gall amrywiaeth a chynhwysiant fod yn rhan greiddiol o ddatblygu polisi a strategaeth?
- Sut gallwch sicrhau bod eich bwrdd wedi'i hyfforddi'n llawn ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth a bod ganddo'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i drafod amrywiaeth gydag awdurdod a hyder?

## Recriwtio i'ch sefydliad

Gall gweithlu amrywiol helpu eich arferion o ran amrywiaeth mewn nifer o ffyrdd:

- Mae gweithlu amrywiol yn debygol o fod â gwybodaeth am gymunedau amrywiol a chysylltiadau â'r cymunedau hynny.
- Os yw eich sefydliad yn edrych yn amrywiol, bydd yn edrych yn fwy croesawgar i bobl o gymunedau amrywiol. Caiff llawer o bobl eu hannog i gymryd rhan yng ngwaith sefydliad os oes pobl yno y maent yn teimlo y gallant uniaethu â nhw; er enghraifft staff neu wirfoddolwyr sy'n nobl ifanc, yn pobl dduon neu o leiafrifoedd ethnig, neu'n bobl hŷn.

Yn aml mae canfyddiad grwpiau amrywiol o'ch sefydliad yn dylanwadu ar ba mor hawdd y gallwch recriwtio o blith y grwpiau hynny. Bydd y berthynas sydd ganddynt hwy, neu bobl eraill o'r grŵp, â'ch sefydliad yn hanfodol. Os ydych wedi ymgysylltu â grwpiau gwahanol drwy eich gwaith, rydych yn fwy tebygol o gael ystod amrywiol o geisiadau pan fyddwch yn hysbysebu am swyddi neu rolau gwirfoddol.

Mae **Cerdd Gymunedol Cymru** yn rhoi pwyslais mawr ar amrywiaeth fel rhan o feini prawf eu cyfweliadau. Maent yn glir ynglŷn â'r sgiliau a'r wybodaeth y maent yn chwilio amdanynt, a byddant yn profi ymgeiswyr ar eu dealltwriaeth o gyfleoedd cyfartal yn y gweithle ac yn y gymuned. Maent yn edrych am ateb hyderus a deallus ac agwedd sy'n adlewyrchu eu harferion cydraddoldeb eu hunain.

Mae llawer o ffyrdd bychain i wneud y broses gyfweld yn llai brawychus. Er enghraifft, rhoddodd un sefydliad y cwestiynau'r oeddynt am eu gofyn i'r ymgeiswyr ryw hanner awr cyn y cyfweliad fel y gallent ystyried eu hatebion. Ni fyddai hyn yn addas pe byddai'r gallu i feddwl yn chwim a byrfyfyr yn un o ofynion y swydd. Ond os nad ydyw, efallai eich bod mewn gwirionedd yn profi'r rhinweddau anghywir drwy'r cyfweliad ac efallai na fyddwch yn dod o hyd i'r ymgeisydd gorau.

Mae llawer o'r un materion yn berthnasol i recriwtio fel a soniwyd uchod o dan 'Cyhoeddi eich Gwaith'. Er enghraifft:

- Ble'r ydych yn hysbysebu a ph'un a gaiff eich hysbysebion eu gweld gan amrywiaeth mor eang â phosibl o ymgeiswyr.
- Yr iaith a ddefnyddir yn eich hysbysebion, a'r ffordd yr ydych yn gosod y swydd-ddisgrifiad swydd a manyleb y person. Os ydych yn defnyddio llawer o jargon sefydliadol, efallai y byddwch yn eithrio pobl a allai wneud y swydd yn dda.
- Bydd trefnu'r broses gyfweld yn iawn yn galluogi ymgeiswyr i roi'r adroddiad gorau amdanynt ei hunain, a dangos beth allant wneud. (Bydd hyn yn benodol bwysig i bobl nad ydynt yn gyfarwydd â'r broses o gael eu cyfweld.)
- Meddyliwch am gyfansoddiad y panel Cyfweld. Dylech osgoi grwpiau cyfweld sydd yn rhy fawr a bygythiol. Hefyd, ceisiwch sicrhau bod y cyfweleion yn gallu uniaethu â chyfansoddiad y Panel. Does neb eisiau gweithio i sefydliad lle maent yn debygol o deimlo'n wahanol i bawb arall.

Dyma enghraifft o iaith a allai gael ei symleiddio. Mae'n bell o fod yr enghraifft waethaf a welsom, ond mae wedi ei dewis oherwydd mai dyma'r math o swydd y gallai pobl o gymunedau gwahanol fod â'r union brofiad a'r sgiliau iawn ar ei chyfer, ond eu bod yn colli diddordeb oherwydd yr iaith:

<table>
<tr><th colspan="2">Swyddog Datblygu Gwirfoddol</th></tr>
<tr><td>Esiampl wael</td><td>Esiampl dda</td></tr>
<tr><td>I gael y mwyaf o'r rôl, bydd angen ichi fod yn wych ar reoli pwysau gwaith amrywiol ac esblygol. Bydd gennych sgiliau cynllunio, cyflwyno a chyfathrebu hyderus hefyd. Yn naturiol, bydd angen profiad arnoch o reoli gwirfoddolwyr ac ymwneud â'r gymuned, ynghyd â chefndir ym maes datblygu cymorth a chyngor i bobl sy'n gweithio yn y sector. Felly byddwch yn gyfarwydd iawn â'r materion a'r cyfleoedd a wynebwn, a bydd gennych yr ysgogiad, yr hyblygrwydd a'r mentergarwch i'n symud i'r cyfeiriad cywir.</td><td>I gael y mwyaf o'r rôl, byddwch angen bod yn dda iawn am wneud llawer o wahanol bethau. Mae hyn oherwydd bydd eich gwaith, a fydd yn amrywiol iawn, yn newid gydag amser. Byddwch yn rhywun sydd â'r hyder i sefyll o flaen gwahanol bobl a dal i allu cyfleu eich neges. Byddwch yn drefnus ac yn dda am gynllunio ymlaen llaw.<br><br>Nid ydym yn disgwyl ichi fod yn arbenigwr ar bob dim. Ond mae'n debygol y byddwch wedi cael profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a'u rheoli (naill ai am dâl neu fel gwirfoddolwr eich hun), a byddwch wedi gwneud gwaith mewn gwahanol sefyllfaoedd cymunedol.<br><br>Yn benodol, hoffem ddod o hyd i rywun sydd wedi cael profiad o gynorthwyo a chynghori pobl yn y celfyddydau. Byddwch yn gwybod ychydig am y materion a'r cyfleoedd a wynebwn, a bydd yr ysgogiad, yr hyblygrwydd a'r mentergarwch fydd gennych yn rhinweddau yr ydym yn edrych amdanynt er mwyn inni symud i'r cyfeiriad cywir.</td></tr>
</table>

Peidiwch ag anghofio bod eich proses recriwtio yn ffordd arall i godi pontydd rhyngoch chi a grwpiau gwahanol, a bydd yn effeithio ar eu canfyddiad ohonoch. Os bydd rhywun yn cael profiad drwg wrth geisio am swydd gyda chi, byddant yn dweud wrth bawb yn eu cymuned.

Cofiwch nad yw recriwtio yn ymwneud â chyflogeion yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â gwirfoddolwyr, interniaethau, lleoliadau gwaith ac aelodau'r bwrdd. Mae cefnogi pawb yn eich sefydliad i ddatblygu a chyrraedd eu llawn botensial yn rhan bwysig o sicrhau amrywiaeth.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â’r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda’ch tîm neu gydweithwyr.

- Ble’r ydych yn hysbysebu ar hyn o bryd?
- Ym mha leoedd gwahanol y gallech hysbysebu er mwyn cyrraedd pobl nad ydych yn eu cyrraedd ar hyn o bryd?
- A yw eich ymgyrchoedd recriwtio yn defnyddio iaith a delweddau sy’n briodol i’r gwahanol grwpiau’r ydych yn ceisio eu cyrraedd?
- Sut gallwch chi gadw’r iaith yn eich deunydd recriwtio, swydd-ddisgrifiad, a manyleb y person yn syml?
- Sut mae eich proses recriwtio yn cydbwyso rhwng cywirdeb a thegwch a dull croesawgar sy’n parchu pobl?
- Pa gwestiynau fyddwch yn eu gofyn yn eich cyfweliadau i gael gwybod ynglŷn â phrofiad yr ymgeisydd o amrywiaeth a chynhwysiant, a’u hymagwedd tuag at y maes?

Yn ôl i’r tudalen Cynnwys

## Diwylliant Sefydliadol

### Ymagwedd y Sefydliad Cyfan

"Caiff cydraddoldeb ei ystyried yn fater i'r sefydliad cyfan. Mae angen sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r materion ac yn gallu cynnwys cydraddoldeb yn eu gwaith, fel rhan o'r diwylliant sefydliadol. Felly nid oes gennym swyddogion cydraddoldeb nac eiriolwr anabledd gan fod gan bob unigolyn, a rheolwyr yn arbennig, gyfrifoldeb dros gydraddoldeb yn eu maes arbenigol i wneud yn siŵr bod pob adran a gwaith yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb. Mae hyn yn gweithio'n dda inni, a chychwynnwyd ar hyn gan waith i gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg a sicrhau bod popeth yn ddwyieithog, a gweithiodd hynny'n dda."

Mae'r dyfyniad hwn yn pwysleisio mai'r ffordd mwyaf effeithiol i wella amrywiaeth yn eich sefydliad yw ei chynnwys yn eich holl weithgarwch a'i gwneud yn rhan o'r hyn mae pawb yn gwneud – yn rhan o frethyn y sefydliad. Wrth gwrs, efallai y bydd rhai prosiectau yn ymwneud yn benodol ag amrywiaeth neu wedi eu hanelu at grwpiau penodol. Ond bydd y prosiectau hyn hefyd yn fwy effeithiol os ydynt yn digwydd mewn sefydliad lle mae amrywiaeth yn rhan greiddiol o'i raglen o weithgarwch.

Er enghraifft, hyd at ryw 10 mlynedd yn ôl, câi Llyfrgell Genedlaethol yr Alban ei rheoli'n dynn. Roedd angen trwydded arnoch i fynd i mewn, ac wedyn byddech yn dod o hyd i'ch llyfr, yn mynd i'ch cilfach ac yn gweithio ar eich pen eich hun mewn distawrwydd parchus. Dymunai'r sefydliad i'r adeilad gael ei ddefnyddio'n ehangach, ac i bobl fod yn ymwybodol bod croeso iddynt ddod i mewn i adeilad hanesyddol. Felly cyflogodd y Llyfrgell fardd preswyl a fu'n gweithio gyda phob math o grwpiau, gan gynnwys glanhawyr, pobl anabl, ymwelwyr a chyflogeion eraill, a gofyn iddynt ddisgrifio eu synnwyr o'r adeilad. Penllanw'r gwaith oedd perfformiad a ddisgrifiai'r adeilad o lawer o wahanol safbwyntiau. Creodd ganfyddiad cyhoeddus gwahanol o'r Llyfrgell, tynnodd sylw at rai anawsterau o ran mynediad, ac roedd o gymorth i wella proffil cydraddoldeb ar agenda'r sefydliad.

### Arweinyddiaeth

Er mwyn i ymagwedd sefydliad fod yn llwyddiannus, mae angen cymorth o'r brig (y corff llywodraethu a'r uwch reolwyr), yn ogystal ag ymrwymiad y staff. Fel arweinydd yn eich sefydliad, y mae'n hanfodol eich bod yn arwain drwy esiampl. Rhaid i'r bobl sy'n gweithio gyda chi ac sy'n eich ystyried yn esiampl gael eu hysbrydoli gan y camau a gymerwch. Nid yn unig yr hyn a ddwedwch sy'n bwysig.

### Pwy sy'n 'gwneud' cydraddoldeb yn eich Sefydliad?

Bydd sefydliadau'n aml yn dadlau p'un a ddylai unigolyn penodol gael ei enwebu i fod yn 'Swyddog Cydraddoldeb', 'Swyddog Ymgysylltu Cymunedol', 'Eiriolwr Anabledd' ac ati. Mewn gwirionedd, mae manteision ac anfanteision i wneud hyn. Os oes gan unigolyn penodol gyfrifoldeb, mae'n bwysig bod ganddo/ganddi gefnogaeth gweddill y sefydliad. Ni ddylai pawb arall gymryd y bydd yr unigolyn penodol yn 'cymryd gofal o amrywiaeth' fel nad oes yn rhaid i neb arall wneud hynny.

Ar y llaw arall, os yw cydraddoldeb yn gyfrifoldeb i bawb, rhaid cael eglurder ynglŷn â sut mae disgwyl i bobl gynnwys hyn yn eu rôl a sut bydd eu gwaith ym maes amrywiaeth yn cael ei gynnwys yn yr asesiad o'u perfformiad. Gallai fod yn fuddiol i sefydliadau mwy gael rhywun sy'n 'arwain' ar amrywiaeth yn y sefydliad. Gellid cael grŵp neu rwydwaith cydraddoldeb, neu well fyth fyddai cael cynllun eiriolwyr amrywiaeth.

## Sut caiff diwylliant ei gyfathrebu

Mae polisi yn bwysig. Ond y prif ffactor sy'n pennu diwylliant yw sut mae pobl yn ymddwyn yn y sefydliad. Er enghraifft, sut caiff amrywiaeth a chydraddoldeb eu trafod? A yw'r sefydliad yn groesawgar i bobl o gymunedau amrywiol? A yw sylwadau neu weithredoedd y gellid eu hystyried yn amhriodol yn gallu cael eu herio mewn ffordd adeiladol?

Ystyriwch sut gall yr holl bobl yn eich sefydliad gael eu cynnwys a pha adnoddau fydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn cynnwys y Bwrdd, staff, ymarferwyr cymunedol, pobl ar leoliadau gwaith neu interniaethau, a gwirfoddolwyr.

Os ydych eisiau bwrw ymlaen â'r syniadau hyn yn eich sefydliad, dyma rai cwestiynau i feddwl amdanynt neu i fod yn sail i drafodaeth gyda'ch tîm neu gydweithwyr.

- Sut caiff amrywiaeth ei gynnwys yn eich sefydliad?
- Pwy sy'n arwain ar amrywiaeth?
- Pwy sy'n eirioli amrywiaeth?
- A oes unrhyw ddelweddau wedi eu harddangos neu iaith wedi ei defnyddio a allai gythruddo rhai pobl neu gael eu camddeall, gan olygu eu bod yn rhwystr?
- Beth sy'n digwydd pan fo rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth sy'n amhriodol? Sut cânt eu hannog i ddysgu o hynny?
- Sut caiff hyfforddiant rheolaidd mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth ei gyflenwi i'r staff?
- A oes gan yr holl staff, gwirfoddolwyr, aelodau'r bwrdd ac ati ddealltwriaeth gyffredin o barch, amrywiaeth a gwahaniaethu?
- A yw'r holl staff yn cael eu hannog i ddatblygu i'w llawn botensial? (Gallai hyn gynnwys lleoliadau gwaith ac interniaethau wedi eu targedu; mentora; hyfforddiant wedi ei dargedu; a rhwydweithiau staff.)

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys



© Community Music Wales

# Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gyfredol

Daeth y Ddeddf Gydraddoldeb i rym ym mis Hydref 2010. Mae'n gosod un fframwaith cyfreithiol a chyfraith glir a syml i fynd i'r afael ag anfantais a gwahaniaethu yn fwy effeithiol.

Mae'r Ddeddf Gydraddoldeb yn dwyn deddfwriaeth hanesyddol ynghyd ac yn symleiddio, cryfhau a chydweddu'r ddeddfwriaeth gyfredol er mwyn rhoi i Gymru a gweddill Prydain gyfraith newydd ar wahaniaethu. Mae hyn yn gwarchod unigolion rhag ymdriniaeth annheg ac yn hybu cymdeithas decach a mwy cyfartal.

Mae'r Ddeddf yn nodi grwpiau penodol sydd wedi eu gwarchod yn y gyfraith. Cyfeirir at y rhain fel Nodweddion Gwarchodedig ac yn gyffredinol ni chewch wahaniaethu yn erbyn unigolyn o ran:

- cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol,
- darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau,
- darparu llety ar rent neu werthu eiddo,
- aelodaeth o sefydliadau masnach a chyrff cymhwyso
- addysg

oherwydd unrhyw un o'r nodweddion hyn.

Mae gennym oll Nodweddion Gwarchodedig fel a ganlyn:

Oedran – Bod o oedran penodol (32) neu fod yn rhan o grŵp oedran (dros 50 oed). Mae rhai gwahaniaethau yn dal i gael eu caniatáu yn achos grwpiau oedran penodol, fel yn achos sensoriaeth ffilmiau, gwerthu alcohol neu'r gallu i dderbyn pensiwn gwladol.

Anabledd – Mae'r ddeddf yn diffinio anabledd fel bod â nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith hirdymor ar allu rhywun i ymgymryd â gweithgareddau beunyddiol arferol. Mae hyn yn cynnwys:

This includes:

- Namau ar y synhwyrau – er enghraifft, rhywun nad yw'n gallu clywed neu weld yn llawn.
- Namau corfforol – er enghraifft, rhywun sy'n defnyddio cadair olwyn neu rywun sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar symudedd.
- Iechyd meddwl – er enghraifft, rhywun sydd ag anhwylder deubegynol.
- Anawsterau dysgu – rhywun sydd ag anghenion addysgol ychwanegol
- Salwch hirdymor – er enghraifft, rhywun sydd â sglerosis ymledol, canser neu sydd yn HIV positif.

**Ailbennu rhywedd** – Mae'r ddeddf yn cwmpasu rhywun o'r pwynt y mae'n bwriadu ymgymryd, yn ymgymryd neu wedi ymgymryd â phroses i newid ei ryw/rhyw (rhywun sydd wedi ei diffinio/ddiffinio yn drawsrywiol). Er bod y ddeddf yn ymarferol ond yn cwmpasu rhywun sy'n drawsrywiol, y cyngor o ran arferion gorau yw trin rhywun sy'n trawswisgo â'r un parch er mwyn osgoi unrhyw anghydfod posibl.

**Priodas a phartneriaeth sifil** – Ni cheir gwahaniaethu yn erbyn rhywun am ei fod/bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Ailddiffiniwyd priodas yng Nghymru a Lloegr i gynnwys priodas dau berson o'r un rhyw neu ddau berson o ryw wahanol (Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013).

**Beichiogrwydd a mamolaeth** – Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod yn dilyn yr enedigaeth ac mae'n cynnwys hawliau cyflogaeth yn ogystal â hawl menyw i fwydo o'r fron ble bynnag y mae'n dymuno. Ni cheir gofyn i fenyw roi'r gorau i fwydo ei babi o'r fron na symud i leoliad preifat (fel toiledau) yn y 26 wythnos cyntaf ar ôl yr enedigaeth. Er bod yr hawl i fwydo o'r fron wedi ei gyfyngu i fabi hyd at 26 wythnos oed, y cyngor o ran arferion gorau yw defnyddio'r un arfer hefyd yn achos mam y mae ei babi yn ymddangos yn hŷn na 26 wythnos oed.

**Hil** – Ni chewch wahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail lliw croen, cenedligrwydd, ethnigrwydd na tharddiad cenedlaethol. Er enghraifft, ni chewch wrthod mynediad i rywun o gymunedau Sipsi, Roma neu Deithwyr i arddangosfa mewn oriel.

**Crefydd neu gred** – Mae hyn yn golygu unrhyw gred neu ffydd grefyddol ac mae hefyd yn cynnwys diffyg ffydd. I fod yn gred gydnabyddedig, rhaid bod i'r crefydd strwythur clir a system gred.

**Rhyw** – Dyn neu fenyw.

**Cyfeiriadedd rhywiol** – p'un a yw rhywun wedi eu hatynnu gan bobl o'r rhyw arall (heterorywiol neu syth), o'r un rhyw (lesbiaidd neu hoyw) neu'r ddau ryw (deurywiol).

## Ymddygiad neu weithredoedd gwaharddedig

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi ymddygiadau neu weithredodd na chewch eu cyflawni, oni ellwch gyfiawnhau eu bod yn ffordd gymesur o gyrraedd nod cyfreithlon. Gallai nod cyfreithlon, er enghraifft, gynnwys recriwtio menyw fel actor i chwarae rôl menyw. Gwaherddir y sefyllfaoedd canlynol o wahaniaethu gan y ddeddf:

**Gwahaniaethu uniongyrchol** – Pan fo cyflogai neu gyflogai arfaethedig yn cael ei drin/thrin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.

Enghreifftiau:

1. Mae rheolwr bar mewn theatr yn penderfynu peidio â chyfweld ag ymgeisydd o Fwslim am swydd am ei fod/bod yn credu, ar sail crefydd neu gred yr ymgeisydd, na fyddai'n barod i weithio mewn bar.

2. Mae oriel yn penderfynu peidio â rhoi lle ar restr fer i ymgeisydd dall am swydd derbynnydd, er bod y cais o'r un safon ag ymgeiswyr eraill sydd wedi eu dewis i gael cyfweliad, am eu bod yn tybio na fyddai'r ymgeisydd dall yn gallu defnyddio offer TG.

3. Ni chaiff menyw feichiog gymryd rhan mewn sesiwn hyfforddiant am fod ei rheolwr yn tybio na fydd yn dychwelyd o'i habsenoldeb mamolaeth.

4. Nid yw rheolwr lleoliad yn cynnig cyfle hyfforddiant i aelod hŷn o staff am ei fod/bod yn credu na fyddai gan yr aelod hŷn o staff ddiddordeb, a rhoddir y cyfle i weithiwr iau.

**Gwahaniaethu anuniongyrchol** – Defnyddio arfer sy'n ymddangos yn niwtral, sy'n rhoi pobl sydd â nodwedd warchodedig benodol dan anfantais o gymharu ag eraill nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Enghreifftiau:

1. Mae cwmni yn cyflwyno rheol "dim penwisg" i'w holl staff. Byddai hyn yn rhoi dynion Sikh sy'n gwisgo twrban, dynion Iddewig sy'n gwisgo yarmulke a menywod Mwslimaidd dan anfantais.

2. Mae cyflogwr yn mynnu bod yn rhaid i ymgeiswyr fod dros chwe throedfedd o daldra heb gyfiawnhad am y gofyniad hwn. Gallai hyn wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn menywod ac aelodau o rai grwpiau ethnig, er enghraifft, gan y byddai llai ohonynt yn ateb y gofyniad hwn.

3. Mae busnes yn dweud bod yn rhaid i ymgeiswyr am swydd feddu ar TGAU Mathemateg a Saesneg – byddai hyn yn gwahaniaethu yn erbyn pobl na chawsant eu haddysgu mewn gwledydd sy'n defnyddio system TGAU. Byddai ychwanegu "neu gymhwyster tebyg" yn osgoi hyn.

4. Mae hysbyseb swydd yn dweud bod 10 mlynedd o brofiad yn ofynnol ar gyfer y swydd, pan fyddai dwy neu dair blynedd o brofiad yn ddigonol. Byddai hyn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl iau.

**Gwahaniaethu drwy gysylltiad** – Pan wahaniaethir yn erbyn cyflogai neu gwsmer oherwydd ei gysylltiad/chysylltiad â rhywun sydd â nodwedd warchodedig. Er enghraifft, rhiant plentyn anabl, neu rywun sy'n heterorywiol ond sy'n rhannu llety â dyn hoyw.

**Gwahaniaethu yn ôl canfyddiad** – Pan wahaniaethir yn erbyn rhywun am fod eraill yn credu bod ganddo/ganddi nodwedd warchodedig hyd yn oed oes nad oes.

Enghreifftiau:

1. Mae Steve yn yfed ym mar theatr ac mae'n gyson yn dioddef o gamdriniaeth homoffobig gan Alan, sy'n gweithio y tu ôl i'r bar. Nid yw Steve yn hoyw ac mae wedi dweud hynny wrth Alan, ond mae Alan yn parhau i gam-drin Steve am ei fod yn meddwl bod Steve yn hoyw. Mae hyn yn achos o wahaniaethu anuniongyrchol oherwydd cyfeiriadedd rhywiol er nad yw Steve yn hoyw.

2. Mae gwirfoddolwr i elusen sy'n cynnal noson moes a phryn yn y neuadd gymunedol leol yn dweud wrth Sanjeev, sydd yn Sikh, nad ydyn nhw'n gwasanaethu Mwslimiaid oherwydd pryderon ynghylch eithafwyr Islamaidd. Esbonia Sanjeev nad yw'n Fwslim, ond nid yw'r gwirfoddolwr yn ei gredu ac mae'n dal i wrthod rhoi gwasanaeth iddo. Byddai hyn yn achos o wahaniaethu uniongyrchol oherwydd canfyddiad o'i grefydd er nad yw Sanjeev yn Fwslim.

**Aflonyddu** – Ymddygiad digroeso yw hyn sydd â'r diben neu'r effaith o dorri ar urddas rhywun neu greu amgylchedd diraddiol, bychanol, gelyniaethus, brawychus neu sarhaus, lle mae'r aflonyddu yn ymwneud â nodwedd warchodedig.

Enghreifftiau:

1. Caniatáu jôcs/tynnu coes yn y gweithle a allai fod yn gwahaniaethu ar sail oedran, hil, cyfeiriadedd rhywiol ac ati…

2. Ym mis Gorffennaf 2008 penderfynodd tribiwnlys diwydiannol o blaid gweithiwr swyddfa hoyw yn dilyn achos o aflonyddu gan ei reolwr a dyfarnwyd £37,000 iddo mewn iawndal. Honnwyd bod y rheolwr wedi ei alw'n "stupid poof" ac wedi prynu papur tŷ bach tylwyth teg pinc iddo, a cherdyn pen-blwydd Oscar Wilde.

**Aflonyddu trydydd parti** – Roedd hyn wedi'i gynnwys yn wreiddiol yn y Ddeddf Gydraddoldeb, ond cafodd ei dynnu ym mis Hydref 2013 gan ddeddfwriaeth olynol.

**Erledigaeth** – Lle y caiff cyflogai ei drin/thrin yn wahanol am iddo/iddi ddefnyddio gweithdrefnau cwyno'r gweithle neu arfer ei hawliau cyfreithiol.

Enghreifftiau:

1. Cael eich anwybyddu am ddyrchafiad am ichi ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r gweithle.

2. Colli eich swydd neu gael eich bygwth y byddwch y colli eich swydd am ichi gefnogi cyflogai arall sydd wedi defnyddio gweithdrefnau cwyno'r gweithle.

**Gwahaniaethu cadarnhaol** – Mae trin rhywun sydd â nodwedd warchodedig yn fwy ffafriol nag eraill fel arfer yn anghyfreithlon.

Enghreifftiau:

1. Gan gydnabod nad oes gan eich gweithle unrhyw gyflogeion sydd yn Ddu neu'n Lleiafrif Ethnig, rydych yn cynnig swydd i rywun sydd yn Ddu neu'n Lleiafrif Ethnig er i ymgeisydd arall gyflwyno cais a rhoi cyfweliad gwell – byddai hyn yn anghyfreithlon.

2. Rydych yn castio ar gyfer rôl Oscar Wilde mewn drama newydd a rhaid i'r rôl gael ei chwarae gan ddyn hoyw – byddai hyn yn anghyfreithlon oni bai y gallwch gyfiawnhau'r penderfyniad yn wrthrychol (gweler isod).

**Atebolrwydd dros arall** – Lle gallai cyflogwr fod yn atebol am weithredoedd cyflogai. Er enghraifft, pan fo rheolwr yn aflonyddu ar gyflogai sydd mewn partneriaeth sifil.



## Ymddygiadau neu weithredoedd a ganiateir

**Gweithred gadarnhaol** – Pan fo cyflogwr yn credu bod cyflogeion neu ymgeiswyr am swydd sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol yn dioddef o anfantais yn gysylltiedig nodwedd honno, neu os yw eu cyfranogiad mewn gweithgarwch yn anghymesur o isel, ac mae'n dymuno cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Enghreifftiau o weithred gadarnhaol:

1. Hysbysebu swydd wag mewn cyhoeddiadau penodol a fyddai'n cyrraedd grwpiau a dangynrychiolir.

2. Gan gydnabod bod cyfranogwyr mewn digwyddiadau yn bennaf yn wyn, a heb fod yn anabl, mae theatr/oriel yn penderfynu cynnal ymgyrch farchnata benodol i gael cyswllt ag aelodau o gymuned leol o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu weithio gyda grŵp Pobl Anabl i gynyddu'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau o'r grwpiau hyn.

Ni ddylid drysu rhwng Gweithred Gadarnhaol a Gwahaniaethu Cadarnhaol. Er y caniateir hysbysebu swyddi gwag mewn lleoedd penodol neu drwy grwpiau penodol, dylai cyfweliadau ar gyfer y swyddi hynny gael eu cynnal yn y fath fodd fel mai'r ymgeisydd gorau sy'n cael y swydd, p'un a oes ganddo/ganddi nodweddion gwarchodedig neu beidio. Ni chaniateir cynnig swydd i ymgeisydd sy'n llai cymwys ar y sail ei fod/bod yn rhan o'r gymuned o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu'n perthyn i unrhyw grŵp arall.

**Addasiadau rhesymol** – Mae'r rhain yn golygu addasiadau y gallwch eu gwneud i'ch lleoliad neu weithle fel ei fod yn fwy hygyrch i bobl anabl. Mae hyn yn cynnwys addasiadau ffisegol, sydd wedi eu dylunio i waredu anfanteision sy'n wynebu rhai pobl anabl, er enghraifft rampiau cadair olwyn; addasiadau i ddeunyddiau fel print bras, sain neu Iaith Arwyddion Prydain.

**Gofynion Galwedigaethol/Cyfiawnhad Gwrthrychol** – Gellir hysbysebu rhai cyfleoedd gwaith i bobl sydd â nodwedd warchodedig benodol yn unig. Rhaid i'r cyflogwr arfaethedig allu cyfiawnhau'r penderfyniad yn wrthrychol mewn achosion o'r fath.

Enghraifft:

1. Castio dyn du i chwarae Othello (er i Patrick Stewart chwarae rhan Othello yn 2013/14, fel yr unig ddyn gwyn mewn cast a oedd yn gwbl ddu fel arall).

2. Hysbysebu swydd wag mewn lloches i fenywod sydd wedi dioddef trais domestig gan nodi mai swydd i fenyw yn unig ydyw.

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** – Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd i gyrff ac awdurdodau cyhoeddus:

- dalu sylw dyledus i'r angen i waredu gwahaniaethu
- hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd
- meithrin perthynas dda rhwng pobl wahanol wrth iddynt ymgymryd â'u gweithgareddau

Caiff hyn ei ategu a'i atgyfnerthu hefyd gan Lywodraeth Cymru o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol ar i gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus yng Nghymru:

- Gyhoeddi amcanion cydraddoldeb, gan gynnwys amcan ar gyflog y rhywiau a'u hadolygu o fewn 4 blynedd mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol a chyhoeddus.
- Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau a gymerwyd ganddynt neu y bwriedir eu cymryd i gyflawni pob amcan cydraddoldeb ac amserlen i gwblhau pob un a threfniadau i fonitro cynnydd.
- Ymgysylltu ag unigolion o bob un o grwpiau'r nodweddion gwarchodedig neu'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli wrth osod a diwygio amcanion cydraddoldeb, wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, neu wrth ymgymryd â rhannau eraill o'r ddyletswydd.
- Sicrhau bod pob gwybodaeth a gyhoeddir yn hygyrch i bobl sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchodedig.
- Gwneud trefniadau i nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydraddoldeb a chasglu gwybodaeth berthnasol nad yw'n ei chasglu ar hyn o bryd. (Er enghraifft, monitro cydraddoldeb i gyflogeion a chwsmeriaid a gwahaniaethau mewn cyflogau.)
- Asesu effaith debygol unrhyw bolisi neu arfer arfaethedig neu sy'n cael eu hadolygu ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.
- Hyrwyddo gwybodaeth am y dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg eu cyflogeion a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant staff.
- Talu sylw dyledus i b'un a ddylai meini prawf dyfarnu wrth gaffael gynnwys ystyriaethau sy'n berthnasol i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ei nodi yn Awdurdod Cyhoeddus o dan Atodlen 19 (Deddf Cydraddoldeb 2010) a chan fod yr Arweiniad Cydraddoldeb hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r dyletswyddau hyn, rydym yn annog ein holl staff a rhai sy'n derbyn cyllid i dalu sylw dyledus i'r agweddau uchod wrth ymgymryd â'u dyletswyddau o ddydd i ddydd.

# Adnoddau a chysylltiadau

Dyma restr isod o rai sefydliadau sy'n gweithio ym meysydd y celfyddydau a/neu amrywiaeth yng Nghymru. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr, ond yn aml gall y sefydliadau sydd wedi eu rhestru gynnig cyngor ar lawer o agweddau ar amrywiaeth a'r celfyddydau. Gallant hefyd roi manylion cyswllt eraill ichi a'ch cyfeirio at ble i ddod o hyd i wybodaeth bellach.

## Cydraddoldeb/Amrywiaeth a'r Celfyddydau

Celf o Gwmpas, http://celfogwmpas.org/
Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown, http://www.bhac.org/
Celfyddydau Anabledd Cymru, www.disabilityartscymru.co.uk
Gofal Celf, http://www.acgc.co.uk/
Cymdeithas Celfyddydau'r Merched, http://www.womensarts.co.uk/

## Oedran

Age Connect Cymru, www.ageconnectswales.org.uk
Age Cymru, www.ageuk.org.uk/cymru
Carers UK www.carersuk.org/
Cymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr www.relres.org

## Rhyw/Rhywedd

Cymorth i Fenywod, http://www.welshwomensaid.org.uk/
Chwarae Teg, http://chwaraeteg.com
Cymorth i Ddynion, www.mensaid.co.uk

## Hil

Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), http://eyst.org.uk
Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig (MEWN Cymru), www.mewn-cymru.org.uk
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN), www.nwren.org
Race Equality First (REF) www.refweb.org.uk
Cyngor Ffoaduriaid Cymru, http://welshrefugeecouncil.org.uk
Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (SEWREC), http://www.sewrec.org.uk/
Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe (SBREC), http://sbrec.org.uk
Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd (VALREC), www.valrec.org

## Anabledd

Sut mae cael cyngor ar sicrhau bod eich gwaith yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd? Er enghraifft, 'Sut mae trefnu perfformiad sydd â dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain?' 'Beth am isdeitlau?' Y lle gorau i ddechrau yw sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl. Er enghraifft mae gwefan Action on Hearing Loss Cymru yn rhoi gwybodaeth am wahanol ffyrdd i gyfathrebu. Ac mae gan Gelfyddydau Anabledd Cymru brofiad a gwybodaeth helaeth o ran cynnwys pobl sydd yn anabl yn y celfyddydau, fel cynulleidfa ac fel perfformwyr/artistiaid.

Celfyddydau Anabledd Cymru, www.disabilityartscymru.co.uk
ABCD Cymru, www.abcdcymru.org.uk
Anabledd Cymru, www.disabilitywales.org
Diverse Cymru, www.diversecymru.org.uk
RNIB Cymru, www.rnib.org.uk/wales-cymru-1
Scope Cymru, www.scope.org.uk/support/wales
SNAP Cymru, www.snapcymru.org
SENSE Cymru, http://www.sense.org.uk/content/sense-cymru-wales
Anabledd Dysgu Cymru, https://www.ldw.org.uk/
Pobl yn Gyntaf Cymru, http://www.allwalespeople1st.co.uk/
Mind Cymru, https://www.mind.org.uk/about-us/
Action on Hearing Loss Cymru, http://www.actiononhearingloss.org.uk/
Prosiect Cyngor ar Anabledd, http://www.dapwales.org.uk/

## Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd

Bi Cymru, www.bicymru.org.uk
LGCM De Cymru (Mudiad Cristnogion Lesbiaidd a Hoyw)
www.lgcm.org.uk/groups/southwales/
My Genderation www.mygenderation.com
Pink Parents, http://www.pinkparents.org.uk/
SPLAG Wales, www.splagwales.org.uk/
Stonewall Cymru, www.stonewallcymru.org.uk/cymru/english
Transgender Awareness Wales http://www.tgawales.co.uk/
Trawsryw Cymru http://transgenderwales.bravepages.com/
Unique Transgender Network, www.uniquetg.org.uk
Unity Group Wales, www.unityproject.org.uk

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Sut y lluniwyd yr arweiniad

Lluniwyd yr arweiniad hwn drwy gyfweld â mwy na 30 o sefydliadau ac unigolion (gweler y rhestr isod). Roedd y gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio'n benodol ar arfer – beth mae pobl yn gwneud i wella amrywiaeth yn eu gwaith artistig, o ran cynulleidfa a chyfranogi mewn gwneud celf. Hoffem ddiolch i bawb a gyfwelwyd am roi o'u hamser ac am yr holl safbwyntiau, syniadau ac enghreifftiau o arfer da a ddarparwyd ganddynt.

Ychwanegwyd myfyrdodau'r awduron at y wybodaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau hyn. Cynigiodd Diverse Cymru enghreifftiau i ddangos i ni a rhai cwestiynau ar gyfer gweithredu'r syniadau yma yn eich sefydliad.

### Cyfweleion

| Cyfwelai | Disgrifiad |
|---|---|
| Christine Matthews | Cynhyrchydd a gweithiwr proffesiynol llawrydd yw Christine Matthews, sy'n gweithio gyda sefydliadau cymunedol ac artistiaid unigol. |
| Leanne Rahman | Ymgynghorydd llawrydd yn y Celfyddydau sy'n arbenigo mewn rhaglennu, curadu a datblygu cynnyrch amrywiaeth yn y celfyddydau, yn ogystal â chynnig cymorth a chyngor ar ffyrdd arloesol i ddenu cynulleidfaoedd amrywiol. |
| Fireworks Studio | Stiwdio gydweithredol yw Fireworks Clay Studio, a ffurfiwyd gan artistiaid sy'n gweithio'n bennaf â chlai. |
| **Cwmniau Cenedlaethol** | |
| Theatr Genedlaethol Cymru | Theatr Genedlaethol Cymru yw theatr genedlaethol Gymraeg Cymru, sy'n teithio ledled Cymru a thu hwnt. O'i chartref yng Nghaerfyrddin, bu'n teithio'n helaeth am 10 mlynedd ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. |
| National Theatre Wales | Gan weithredu o le bach yng nghanol dinas Caerdydd, mae National Theatre Wales yn creu theatr ledled Cymru, ac mae i bob cynhyrchiad berthynas unigryw â chymunedau a chynulleidfaoedd lleol. |

| | |
|---|---|
| Opera Cenedlaethol Cymru | Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn llwyfannu perfformiadau arobryn o operâu llawn a chyngherddau sy'n cyfuno synnwyr o antur a'r ansawdd uchaf posibl. |
| Clwyd Theatr Cymru | Clwyd Theatr Cymru (CTC) yw'r ganolfan gelfyddydau fwyaf o ran eu cynnyrch yng Nghymru, ac mae'n seiliedig yn yr Wyddgrug yn Sir y Fflint. |
| Y Sector Gwirfoddol/Amatur | |
| Celfyddydau Gwirfoddol Cymru | Mae Celfyddydau Gwirfoddol Cymru yn gweithio'n bennaf i hyrwyddo a chynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru. Mae'n gweithio gyda llunwyr polisi, cyllidwyr a gwleidyddion i wella'r amgylchedd i bawb sy'n cyfranogi yn y celfyddydau, a chynnig gwybodaeth a hyfforddiant i'r miloedd lawer o grwpiau ac unigolion sy'n cyfranogi yn sector y celfyddydau gwirfoddol. |
| Celfyddydau Anabledd Cymru | Sefydliad cenedlaethol yw Celfyddydau Anabledd Cymru, sy'n gweithio'n strategol i hyrwyddo cydraddoldeb yn y celfyddydau i bobl anabl. |
| Artlink, Caeredin | Sefydliad y celfyddydau ac anabledd yw Artlink, a ffurfiwyd ym 1984. Ei nod yw cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau i bobl sydd dan anfantais neu sydd ag anabledd yn nwyrain yr Alban. Mae Artlink yn cynnig cymorth ymarferol er mwyn i bobl gael eu cynnwys, ac mae'n gweithio gyda lleoliadau er mwyn cynyddu cyfleoedd i fwynhau'r celfyddydau. Mae Artlink yn sefydlu partneriaethau gydag artistiaid, lleoliadau a sefydliadau er mwyn annog newidiadau cadarnhaol. |
| Canolfan Gerdd William Mathias | Mae Canolfan Gerdd William Mathias yn ymrwymedig i ddarparu hyfforddiant a phrofiadau perfformio cerddoriaeth, o'r ansawdd uchaf oll, er budd holl aelodau'r gymuned yng Nghymru yn ogystal â hyrwyddo'r rhanbarth yn genedlaethol a rhyngwladol. |

| | |
|---|---|
| Circus Eruption | Diben Circus Eruption yw hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac integreiddio pobl ifanc 3 i 19 oed drwy gyfrwng sgiliau syrcas.<br><br>Ei brif nodau yw integreiddio, cynhwysiant, cyfranogiad, dysgu sgiliau newydd mewn amgylched diogel, grymuso, mynegiant creadigol, a herio anghydraddoldeb, anfantais a gwahaniaethu. |
| **Gwyliau/Syrcasau/Carnifalau** | |
| Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwylliannol De Cymru (SWICA) | Diben Carnifal SWICA yw dathlu amrywiaeth ddiwylliannol de Cymru drwy greu cyfleodd newydd yn y celfyddydau i'w mwynhau gan bawb. Fel cwmni nid-er-elw, mae SWICA yn ceisio datblygu celfyddydau carnifal, dathlu amrywiaeth ddiwylliannol de Cymru a cheisio sicrhau cydraddoldeb diwylliannol, hynny yw 'celf i bawb'. |
| Eisteddfod Genedlaethol Cymru | Yr Eisteddfod yw un o wyliau diwylliannol gorau'r byd, ac mae'n dwyn pobl o bob oed a chefndir ynghyd i fwynhau cymysgedd amrywiol o gerddoriaeth, llenyddiaeth, dawns, theatr, y celfyddydau gweledol a llawer mwy. |
| Nofit State | NoFit State yw cwmni syrcas mawr cyfoes pennaf y Deyrnas Unedig, ac mae'n cynhyrchu cynyrchiadau teithiol proffesiynol ac amrywiaeth eang o brosiectau cymunedol, hyfforddiant ac addysg i bobl o bob oed. |
| Gwanwyn | Caiff Gŵyl Gwanwyn ei chynnal ledled Cymru drwy gydol mis Mai i ddathlu creadigrwydd ymysg pobl hŷn.<br><br>Mae'r ŵyl yn cynnig cyfleoedd gwych i bobl hŷn gyfranogi mwy yn y celfyddydau ac mae hefyd yn gyfle i dynnu sylw at gyfranogiad pobl hŷn yn y celfyddydau drwy gydol y flwyddyn, a hyrwyddo hynny. |

| Mudiadau cymunedol | |
|---|---|
| Cerdd Gymunedol Cymru | Ers 1992, bu Cerdd Gymunedol Cymru yn cynorthwyo cerddorion ledled Cymru drwy ddarparu amrywiaeth eang o weithgarwch, gan gynnwys hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau.<br><br>Caiff y gweithgarwch ei gynnal ar ffurf allgymorth mewn partneriaeth ag amrywiaeth o fudiadau, boed yn wirfoddol, statudol neu fasnachol, o'n swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon. |
| Dawns i Bawb | Dawns i Bawb yw'r mudiad ymbarél ar gyfer dawns gymunedol yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae Dawns i Bawb yn gweithio gyda phobl leol, gydag ymarferwyr dawns amatur a phroffesiynol, i annog dawns yn yr ardal. |
| Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani | Ffurfiwyd Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani ym mis Medi 2009. Gan weithio drwy'r celfyddydau, mae'r Cwmni yn denu cyllid i fynd â phrosiectau datblygu cymunedol ac addysgol i safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac i gymunedau Gorjer a 'gwerin gwlad' ledled Cymru.<br><br>Mudiad datblygu cymunedol Sipsiwn, Roma a Theithwyr ydym yn y bôn. Cawn ein harwain gan Sipsiwn a Theithwyr, rydym yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr a gweithiwn dros Sipsiwn a Theithwyr. Credwn y gall y gymuned gael ei datblygu i fod yn gyfranogwyr sy'n cael eu derbyn yn llwyr mewn cymdeithas brif ffrwd tra'n cynnal eu diwylliant a'u treftadaeth nodedig. |
| Gŵyl Glan yr Afon | Un o'r gwyliau cymunedol a fu wrthi ers hiraf yng Nghaerdydd, ac mae'n dwyn ynghyd aelodau un o'r ardaloedd mwyaf diwylliannol amrywiol yng Nghymru. |
| Gŵyl Gwobr Iris | Gwobr ffilm fer hoyw a lesbiaidd ryngwladol Caerdydd yw'r unig wobr ffilm fer yn y byd sy'n caniatáu i'r enillydd wneud ffilm newydd. Caiff Gwobr Iris ei chyflwyno'n flynyddol yn ystod Gŵyl Gwobr Iris. Mae'r rhaglen yn cynnwys ffilmiau nodwedd newydd, sesiynau panel, partïon a dangosiadau o bob un o'r 30 ffilm fer sy'n cystadlu am Wobr Iris. |

| Lleoliadau sy’n cyflwyno | |
|---|---|
| Galeri | Menter gymunedol nid-er-elw yw Galeri Caernarfon Cyf. sy’n gweithredu fel Ymddiriedolaeth Ddatblygu. Ei gweledigaeth yw bod “unrhyw beth yn bosibl... drwy feddwl yn greadigol a gweithredu cynaliadwy”.<br><br>Mae’r cwmni’n gweithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd greadigol i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymunedol leol a’r cyffiniau. |
| Chapter | Lleoliad amlgelfyddyd yw Chapter sy’n cyflwyno, cynhyrchu a hyrwyddo celf ryngwladol, perfformiadau byw a ffilm, yn ogystal â darparu lle cymdeithasol deinamig, gan groesawu mwy nag 800,000 o ymwelwyr y flwyddyn. |
| Canolfan Mileniwm Cymru | Agorwyd Canolfan Mileniwm Cymru yn 2004, ac mae eisoes wedi sefydlu enw da i’w hun fel un o gyrchfannau celfyddydol a diwylliannol eiconig y byd. Gweledigaeth y Ganolfan yw bod yn dirnod diwylliannol o bwys rhyngwladol ac yn ganolfan ar gyfer y celfyddydau perfformio sydd yn adnabyddus am ysbrydoliaeth, rhagoriaeth ac arweinyddiaeth. |
| Taliesin | Mae’r pwyslais yma yn Nhaliesin ar ansawdd ac arloesi, gan ddarparu gwasanaeth o ansawdd i fyfyrwyr a phobl Abertawe a gweithredu yn ganolfan ragoriaeth ranbarthol. Yn ogystal â digwyddiadau yn yr adeilad, yn ddiweddar, yn sgil cynnydd yn ein cyllid gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, rydym wedi dechrau mynd â’n cynyrchiadau y tu allan i’r theatr, gan gynnal Diwrnodau Dawns, gŵyl flynyddol yng nghanol y ddinas, a mynd â’n cynyrchiadau ein hunain ar daith i leoliadau eraill ledled Cymru a thu hwnt. |
| Venue Cymru | Venue Cymru yw’r ganolfan gelfyddydol a chynadledda fwyaf yng ngogledd Cymru. Mae’n llwyfannu sioeau cerdd teithiol mawr o’r West End, Opera o’r radd flaenaf gan Opera Cenedlaethol Cymru a llawer o genres eraill gan gynnwys pantomeim, dawns gyfoes, bale, a gweithgareddau allgymorth ac addysgol. |

| Cwmniau Cynhyrchu | |
|---|---|
| Theatr Arad Goch | Mae Arad Goch yn creu theatr berthnasol i blant a phobl ifanc. Ein nod yw creu profiad theatrig sy'n ysbrydoli ac ysgogi ac sy'n gofiadwy. Mae ein gwaith yn seiliedig ar ddeunydd a thraddodiadau cynhenid Cymru yn ogystal â themâu ac arddulliau cyfoes a heriol. |
| Torch | Mae Theatr Torch yn ganolfan fywiog i'r celfyddydau yn Aberdaugleddau, ac ymfalchïa ar estyn croeso cynnes Sir Benfro i'w holl ymwelwyr. |
| Volcano | Mae Volcano yn llais unigryw ym myd y theatr. Rydym yn creu cynyrchiadau theatr gwreiddiol a digwyddiadau safle-benodol; ac yn mynd â chynyrchiadau ar daith yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Rydym y curadu digwyddiadau sy'n dwyn artistiaid a chyfranogwyr ynghyd. Rydym yn addysgu ac yn ysbrydoli drwy weithdai a chynlluniau preswyl. |
| Mess Up The Mess | Sefydliad nid-er-elw yw Cwmni Theatr Mess Up The Mess Cyf a sefydlwyd i gynnig theatr ddeinamig sy'n rhoi profiad i bobl ifanc. Rydym yn cynyddu cyfleoedd i ymarferwyr theatr newydd-raddedig ac yn creu cwmni cynhwysol ar gyfer theatr arloesol sy'n estyn allan at gynulleidfaoedd newydd amrywiol, gan roi chwa o awyr iach i'r theatr yn Sir Gaerfyrddin a thu hwnt.<br><br>Mae Mess Up The Mess yn llwyddo i ddefnyddio'r theatr yn greadigol i ysbrydoli a chynnal cyswllt a phobl ifanc drwy brofiadau dysgu trawsffurfiol. |
| **Orielau** | |
| Glynn Vivian | Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn rhan o Ddinas a Chyngor Abertawe a chaiff ei chefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chyfeillion Glynn Vivian. |

| | |
|---|---|
| Mostyn | Yn ei chwe oriel, mae Mostyn yn dangos amrywiaeth o arddangosfeydd cyffrous sy'n cyflwyno'r gelf gyfoes orau a gynhyrchir yng Nghymru ac yn dwyn i Gymru rai o'r gweithiau celf mwyaf diddorol a wneir yn rhyngwladol. Nid oes gan Mostyn gasgliad, ond mae'n dangos amrywiaeth eang o arddangosfeydd sy'n newid yn dymhorol, ac y amrywio o sioeau ar raddfa fawr i brosiectau bach a thafluniadau fideo.<br><br>Mae hefyd gan Mostyn raglen eang iawn ac arbennig o ddychmygus o weithgareddau dysgu wedi eu hanelu at grwpiau ysgol, coleg, prifysgol, ieuenctid ac anghenion arbennig, yn ogystal ag unigolion a dysgwyr gydol oes. |

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

www.cyngorcelfyddydaycymru.org.uk